COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YN SIR BENFRO

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YN SIR BENFRO

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD
2. CYNIGION CYNGOR SIR PENFRO
3. YSTYRIAETH Y COMISIWN
4. GWEITHDREFN
5. CYNIGION
6. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL
7. YMATEB I'R ADRODDION HWN

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif ffôn: (029) 20395031
Rhif ffacs: (029) 20395250
E-bost: cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Sir Penfro wedi cynnal arolwg o'r ffiniau cymunedol a'r trefniadau ar gyfer etholiadau cymunedol o dan Adrannau 55(2) a 57 (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (y Ddeddf). Yn unol ag Adran 55(2) y Ddeddf, mae Cyngor Sir Penfro wedi cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn sy'n nodi eu hystyriaethau ar gyfer newidiadau i nifer o ffiniau cymunedol yn eu hardal. Ceir crynodeb o newidiadau arfaethedig Cyngor Sir Penfro yn Atodiad 1.

1.2 Rydym wedi ystyried adroddiad Cyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 55(3) y Ddeddf ac yn cyflwyno'r adroddiad canlynol am argymhellion y Cyngor.

2. CYNIGION CYNGOR SIR PENFRO

2.1 Cyflwynwyd cynigion Cyngor Sir Penfro i'r Comisiwn ar 6 Awst 2009. Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau am y cynigion oddi wrth Gyngor Cymuned Treamlod, Cyngor Cymuned Cilgerran, Cyngor Cymuned Clunderwen, Cyngor Cymuned Crymych, Cyngor Cymuned Herbrandston, Cyngor Cymuned Cilgeti Begeli, Cyngor Cymuned Llanstadwell, Cyngor Cymuned Maenordeifi, Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid, Cyngor Cymuned Nanhyfer, Cyngor Cymuned Slebech, Cyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod, Cyngor Cymuned Uzmaston a Boulston, Stephen Crabb AS, Paul Davies AC, y Cynghorydd D Howlett, y Cynghorydd D Bryan, y Cynghorydd C Cavill, y Cynghorydd I Gollop, y Cynghorydd R Hancock, Cymdeithas Cymuned Jordanston ac 84 o drigolion lleol yn ogystal â deiseb sy'n cynnwys 150 o lofnodion. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2. Wrth i'r Comisiwn ystyried cynigion Cyngor Sir Penfro, fe drefnodd y Comisiwn gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Treamlod, Cyngor Cymuned Dale, Cyngor Cymuned Herbrandston, Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid, Cyngor Cymuned Spittal a Chyngor Cymuned Uzmaston a Boulston.

2.2 O ganlyniad i'w harolwg, mae'r Cyngor wedi argymell newidiadau i'r ffiniau rhwng y cymunedau canlynol: Scleddau a Threcwn; Castellmartin a Stackpole; Treamlod a Spittal; Clunderwen a Gorllewin Llandysilio; Dale a Marloes a Sain Ffraid; Herbrandston a Llanisan yn Rhos; Llawhaden a Slebech; Hwlffordd a Rudbaxton; Hwlffordd ac Uzmaston a Boulston; Rudbaxton ac Uzmaston a Boulston; Llanstadwell a Rosemarket; Maenordeifi a Chilgerran; Crymych ac Eglwyswrw; Cilgerran ac Eglwyswrw; Nanhyfer ac Eglwyswrw; Cas-mael ac Eglwyswrw; Llangwm a Freystrop; Freystrop a Hook; Rosemarket a Freystrop; Rosemarket a Burton; Hundleton ac Angle; Mathri a Llanrhian; Camros a Hwlffordd; Camros a Nolton a'r Garn; Tiers Cross a Johnston; Amroth a Chilgeti Begeli; Dwyrain Williamston a Chilgeti Begeli; Llanfair Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot; Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod.

3. YSTYRIAETH Y COMISIWN

3.1 Aethom ati yn y lle cyntaf i ystyried a oedd y cyngor wedi cynnal eu harolwg yn unol â'r weithdrefn a nodir yn y Ddeddf. Ein cam nesaf oedd ystyried a oedd y cynigion a argymhellir yn addas ar gyfer darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

4. GWEITHDREFN

4.1 Mae Adran 60 y Ddeddf yn mynnu bod y cyngor yn cymryd camau sy'n addas yn eu tyb nhw er mwyn sicrhau bod y bobl sydd â buddiant yn yr arolwg yn cael gwybod am y cynnig i gynnal arolwg yn ogystal â'r cynigion drafft fydd ar gadw yn swyddfeydd y cyngor. Mae'n ofynnol bod adroddiad y cynigion terfynol ar gadw hefyd yn swyddfeydd y cyngor. Rhoddwyd manylion cynigion Cyngor Sir Penfro ar gadw yn swyddfeydd y Cyngor ac yn llyfrgelloedd y cyngor.

4.2 Rydym yn fodlon bod Cyngor Sir Penfro wedi cynnal yr arolwg yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn Adran 60 y Ddeddf.

5. CYNIGION

Scleddau a Threcwn

5.1 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Scleddau a Threcwn i ffurfio cymuned newydd o'r enw Scleddau. Nid oedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn unrhyw gynrychiolaethau mewn cysylltiad â'r cynnig. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal, ac rydym o'r farn bod y ddwy gymuned gyfredol yn debyg. Rydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid cyfuno cymuned Scleddau a chymuned Trecwn i ffurfio cymuned newydd Scleddau fel y dangosir ar y map yn Atodiad 3.

Castellmartin a Stackpole

5.2 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Castellmartin a Stackpole i ffurfio cymuned newydd o'r enw Stackpole a Chastellmartin. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau yn cefnogi'r cynnig gan Gyngor Cymuned Stackpole a Chyngor Cymuned Castellmartin. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal, ac rydym o'r farn bod y ddwy gymuned gyfredol yn debyg. Rydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid cyfuno cymuned Stackpole a chymuned Castellmartin i ffurfio cymuned newydd Stackpole a Chastellmartin fel y dangosir ar y map yn Atodiad 3.

Treamlod a Spittal

5.3 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Treamlod a Spittal i ffurfio cymuned newydd o'r enw Treamlod a Spittal. Gofynnodd Cyngor Sir Penfro i'r Comisiwn ystyried y gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol cydnabyddedig rhwng cymunedau Treamlod a Spittal wrth ystyried eu cynnig. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau yn gwrthwynebu eu cynnig gan Gyngor Cymuned Treamlod, Cyngor Cymuned Spittal, Stephen Crabb AS, Paul Davies AC, dau gynghorydd sir a dau

gorff arall â diddordeb. Fe dderbyniodd y Comisiwn gyrychiolaethau gan Gyngor Cymued Treamlod, Cyngor Cymuned Spittal, Stephen Crabb AS, Paul Davies AC a'r Cyng. D Howeltt. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, ymweld â'r ardal, nodi'r pwyntiau a godwyd yn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ogystal â chwrdd â chynrychiolwyr o'r ddau gyngor cymuned a'r cynghorydd sir sy'n cynrychioli'r ddwy gymuned. Er gwaethaf y tebygrwydd rhwng y ddwy gymuned yn gyffredinol, rydym o'r farn bod gwahaniaethau amlwg rhwng hunaniaeth y cymunedau. Rydym hefyd o'r farn bod y naill gymuned fel y llall ar wahân a bod y ddau gyngor cymuned yn gweithredu'n dda ac yn deall y materion lleol sy'n berthnasol yn eu cymunedau dan sylw. Nid ydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i gyfuno cymuned Treamlod gyda chymuned Spittal.

Clunderwen a Gorllewin Llandysilio

5.4 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Clunderwen a Gorllewin Llandysilio i ffurfio cymuned newydd o'r enw Clunderwen a Llandysilio. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau yn gwrthwynebu eu cynnig gan Gyngor Cymuned Clunderwen a Chyngor Cymuned Gorllewin Llandysilio. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Clunderwen. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, ymweld â'r ardal ac wedi nodi'r pwyntiau a wnaed gan y cynghorau cymuned yn eu cynrychiolaethau i Gyngor Sir Penfro a'r Comisiwn. Er ein bod yn cydnabod bod cymunedau Clunderwen a Llandysilio yn debyg a bod ffordd dda yn cysylltu'r ddwy gymuned, rydym o'r farn bod gan y naill gymuned fel y llall ei hunaniaeth sefydledig a bod eu cynghorau cymuned yn eu gwasanaethu'n dda. Nid ydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i gyfuno cymuned Clunderwen gyda chymuned Gorllewin Llandysilio.

Dale a Marloes a Sain Ffraid

5.5 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Dale a Marloes a Sain Ffraid i ffurfio cymuned newydd o'r enw Coastlands. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau yn gwrthwynebu eu cynnig gan Gyngor Cymuned Dale, Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid yn ogystal â 27 o bartïon eraill â diddordeb. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid, Stephen Crabb AS a dau breswyliwr lleol. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, nodi'r pwyntiau a godwyd yn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd, ymweld â'r ardal a chwrdd â chynrychiolwyr o'r ddau gyngor cymuned. Er gwaethaf y tebygrwydd rhwng y ddwy gymuned yn gyffredinol gan fod y naill fel y llall yn ardaloedd bychain ar yr arfordir, rydym o'r farn bod gwahaniaethau amlwg o ran hunaniaeth gymdeithasol a gweithgareddau lleol. Rydym hefyd o'r farn bod y ddwy gymuned yn wahanol a bod y ddau gyngor cymuned yn gweithredu'n dda ac yn deall materion lleol sy'n berthnasol i'w cymunedau dan sylw. Er ein bod yn cydnabod pryder Cyngor Sir Penfro ynghylch nifer isel iawn yr etholwyr yn y ddwy gymuned, rydym o'r farn bod y ffaith fod cynghorau cymuned ymatebol ac effeithiol yn cynrychioli'r ddwy gymuned yn gwneud iawn am hynny i raddau helaeth. Nid ydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i gyfuno cymuned Dale gyda chymuned Marloes a Sain Ffraid.

Herbrandston a Llanisan yn Rhos

5.6 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Herbrandston a Llanisan yn Rhos i ffurfio cymuned newydd o'r enw Herbrandston a Llanisan yn Rhos.

Gofynnodd Cyngor Sir Penfro i'r Comisiwn ystyried y materion y tynnwyd sylw atynt o ran sut mae'r cymunedau dan sylw yn cydweddu â'i gilydd. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau yn gwrthwynebu eu cynnig gan Gyngor Cymuned Herbrandston, Cyngor Cymuned Llanisan yn Rhos a dau barti arall â diddordeb. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Herbrandston, Paul Davies AC a phreswylydd lleol. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, ymweld â'r ardal, nodi'r pwyntiau a godwyd yn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd a chwrdd â chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Herbrandston ac rydym o'r farn bod y ddwy gymuned yn wahanol i'w gilydd ac nad oes unrhyw gysylltiad rhwng materion a phryderon y naill gymuned fel y llall. Rydym wedi nodi nad oes cysylltiad uniongyrchol parhaus rhwng y ddwy gymuned gan fod cilfach rhyngddynt nad oes modd mynd heibio iddi oni bai bod y llanw'n isel. Nid ydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i gyfuno cymuned Herbrandston gyda chymuned Llanisan yn Rhos.

Llawhaden a Slebech

5.7 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Llawhaden a Slebech i ffurfio cymuned newydd o'r enw Canaston. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau yn cefnogi eu cynnig gan Gyngor Cymuned Llawhaden yn ogystal â chynrychiolaeth gan Slebech yn gwrthwynebu'r cynnig. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Slebech. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, nodi'r pwyntiau a godwyd yn y cynrychiolaethau ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ddwy gymuned yn debyg i'w gilydd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod rhan helaeth o gymuned Slebech yn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gan olygu bydd gan y cyngor gymuned bryderon penodol mewn cysylltiad â'r sefyllfa honno sy'n amherthnasol i gyngor Llawhaden. Rydym yn bryderus am y ffaith mai dim ond 127 o etholwyr sydd gan Slebech ac mai dyma'r gymuned sydd â'r ail etholaeth leiaf yn Sir Benfro (Castellmartin yw'r lleiaf ac mae'r gymuned honno am gael ei chyfuno gyda chymuned Stackpole). Fodd bynnag, ar ôl ystyried pryderon a materion penodol y cynghorau cymuned, nid ydym yn fodlon mai cyfuno Slebech gyda Llawhaden yw'r ateb mwyaf addas i'r ffaith fod etholaeth mor fach yng nghymuned Slebech.

5.8 Rydym wedi nodi bod rhan helaeth o gymuned gyfagos Uzmaston a Boulston ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a bod ganddi gysylltiadau cyfathrebu da gyda Slebech yn ogystal ag etholaeth gymharol fechan. Mae Cyngor Sir Penfro wedi argymell cyfuno cymuned Uzmaston a Boulston gyda chymuned Rudbaxton fel yr amlinellir ym mharagraff 5.11 isod. Fodd bynnag, nid ydym yn fodlon y bydd cyfuno cymunedau Uzmaston a Boulston gyda Rudbaxton o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus oherwydd y rhesymau a nodir yn y paragraff hwnnw. Rydym yn derbyn pwynt Cyngor Sir Penfro bod cymuned Uzmaston a Boulston yn etholaeth seneddol Preseli Sir Benfro tra bod Slebech yn etholaeth seneddol Gorllewin Caerfyrddin a De Cyngor Sir Penfro. Rydym yn nodi na fyddai cyfuno cymunedau Slebech ac Uzmaston a Boulston yn golygu newid y ffin rhwng etholaethau seneddol Preseli Cyngor Sir Penfro a Gorllewin Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro, er y byddai'n achosi anomali lle nad yw ffiniau'r etholaethau seneddol yn cyfateb i ffiniau llywodraeth leol. Byddai angen i Gomisiwn Ffiniau gynnal arolwg er mwyn datrys anomali o'r fath. Byddai'r Comisiwn yn cael ei hysbysu gan y Comisiwn hwn ynglŷn ag unrhyw newidiadau i ffiniau llywodraeth leol lle byddai angen arolwg o'r fath. Felly, rydym yn argymell cyfuno cymuned Slebech gyda chymuned Uzmaston a Boulston i ffurfio cymuned newydd Uzmaston, Boulston a Slebech fel y dangosir yn y map yn Atodiad 5.

Hwlffordd a Rudbaxton

5.9 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal ger Ffordd Aberteifi yn ward Gogledd Prendergast o gymuned Rudbaxton i gymuned Hwlffordd. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaeth o blaid y cynnig gan Gyngor Cymuned Rudbaxton. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan breswylydd lleol. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn argymell y dylid newid y ffin rhwng cymuned Hwlffordd a chymuned Rudbaxton fel y dangosir yn y map yn Atodiad 6.

Hwlffordd ac Uzmaston a Boulston

5.10 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo'r tai yn Addison Close, Parc Dunsany, Heol Uzmaston, Parc Style a Pharc Clover o gymuned Uzmaston a Boulston i gymuned Hwlffordd. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaeth o blaid y cynnig gan Gyngor Tref Hwlffordd yn ogystal â chynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Uzmaston a Boulston yn gwrthwynebu'r cynnig. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynnig gan Gyngor Cymuned Uzmaston a Boulston, y Cynghorydd R Hancock, y Cynghorydd D Bryan a 19 o breswylwyr lleol. Fe nodwyd gennym wrthwynebiad y preswylwyr eu bod yn teimlo bod ganddynt gysylltiad agosach â chymuned wledig Uzmaston a Boulston o gymharu â Hwlffordd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni fel bod Uzmaston a Boulston ger Heol Uzmaston yn rhan o'r ardal breswyl yn rhan ddwyreiniol ward Priordy yn Hwlffordd. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn argymell y dylid newid y ffin rhwng cymuned Hwlffordd a chymuned Rudbaxton fel y dangosir yn y map yn Atodiad 7.

Rudbaxton ac Uzmaston a Boulston

5.11 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell cyfuno cymunedau cyfredol Rudbaxton ac Uzmaston a Boulston i ffurfio cymuned newydd o'r enw Crundale. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynnig hwn gan Gyngor Cymuned Uzmaston a Boulton a Chyngor Cymuned Rudbaxton. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynnig hwn gan y Cynghorydd R Hancock, y Cynghorydd D Bryan a phedwar o breswylwyr lleol. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, nodi'r pwyntiau a godwyd yn y cynrychiolaethau, ymweld â'r ardal a chwrdd â chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Uzmaston a Boulston ac rydym o'r farn bod sawl gwahaniaeth amlwg rhwng y ddwy gymuned. Prin iawn yw'r nodweddion sy'n gyffredin rhwng y cymunedau gan fod llawer mwy o bobl yn byw yn yr un ardal yng nghymuned Rudbaxton o gymharu ag Uzmaston a Boulston tra bod rhan o gymuned Uzmaston a Boulston ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Yn anad dim, nid oes ffordd uniongyrchol sy'n cysylltu ardaloedd y ddwy gymuned gan olygu byddai hynny'n meithrin ymdeimlad o raniad ac arwahanrwydd mewn cyngor cymuned sydd wedi'i gyfuno yn ôl pob tebyg. Nid ydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i gyfuno cymuned Rudbaxton gyda chymuned Uzmaston a Boulston. Rydym yn nodi pryder Cyngor Sir Penfro mai 147 yn unig fydd yn etholaeth cymuned Uzmaston a Boulton ar ôl trosglwyddo rhan o Uzmaston a Boulston i gymuned Hwlffordd. Fel y nodwyd ym mharagraff 5.8 uchod, byddai cyfuno cymuned Uzmaston a Boulston gyda

chymuned Slebech yn ateb mwy addas oherwydd y rhesymau a nodwyd yn y paragraff hwnnw. Felly, rydym yn argymell cyfuno cymuned Slebech gyda chymuned Uzmaston a Boulston i ffurfio cymuned newydd Uzmaston, Boulston a Slebech fel y dangosir yn y map yn Atodiad 5.

Llanstadwell a Rosemarket

5.12 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Jordanston / Parc Santes Fair o gymuned Llanstadwell i gymuned Rosemarket. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau o blaid eu cynnig gan Gyngor Cymuned Rosemarket yn ogystal â chynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynnig gan Gyngor Cymuned Llanstadwell a phedwar parti arall â diddordeb. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig gan Gyngor Cymuned Llanstadwell, Cymdeithas Cymuned Jordanston a 58 o breswylwyr lleol. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, ymweld â'r ardal ac ystyried y cynrychiolaethau rydym wedi'u derbyn. Rydym yn nodi fod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg er bod llednant llanw rhwng ardal Jordanston / Parc Santes Fair a chymuned Rosemarket. Er ein bod yn derbyn bod Jordanston wrth ymyl pentref Rosemarket a bod ffyrdd sy'n cysylltu'r ddwy ardal ar draws y llednant llanw, rydym yn nodi nad yw'r ffin newydd a argymhellir yn y trosglwyddiad yn cynnwys dau eiddo ger ardal Jordanston / Parc Santes Fair. Rydym hefyd yn nodi'r gynrychiolaeth y gwnaethom ei derbyn a nododd y bydd y ffin arfaethedig yn rhannu Fferm Norton yn ddwy rhwng Llanstadwell a Rosemarket. Rydym yn nodi'r cynrychiolaethau y gwnaethom eu derbyn yn gwrthwynebu'r trosglwyddiad. Ar y cyfan, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod cysylltiad digon agos rhwng ardal Jordanston / Parc Santes Fair a chymuned Rosemarket. Nid ydym yn fodlon y bydd y newid arfaethedig o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i drosglwyddo ardal Jordanston / Parc Santes Fair o gymuned Llanstadwell i gymuned Rosemarket.

Maenordeifi a Chilgerran

5.13 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Pontrhydyceirt o gymuned Maenordeifi i gymuned Cilgerran. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaeth o blaid eu cynnig gan Gyngor Cymuned Cilgerran yn ogystal â chynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Maenordeifi yn gwrthwynebu'r cynnig. Fe dderbyniodd y Comisiwn hefyd gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Cilgerran o blaid y cynnig yn ogystal â chynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Maenordeifi yn gwrthwynebu'r cynnig. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, ymweld â'r ardal ac ystyried y cynrychiolaethau rydym wedi'u derbyn. Rydym yn nodi bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym wedi ystyried y dadleuon a gyflwynwyd o blaid ac yn erbyn trosglwyddo Pontrhydyceirt i gymuned Cilgerran ac er ein bod yn derbyn y byddai cynnig gorsaf bleidleisio agosach i drigolion ardal Cilgerran yn fwy chyfleus i'r trigolion hynny, nid ydym yn fodlon bod cysylltiad digon agos rhwng ardal Pontrhydyceirt a chymuned Cilgerran. Nid ydym yn fodlon y bydd y newid arfaethedig o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i drosglwyddo ardal Pontrhydyceirt o gymuned Maenordeifi i gymuned Cilgerran.

Crymych ac Eglwyswrw

5.14 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Eglwyswen o gymuned Crymych i gymuned Eglwyswrw. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaeth o blaid eu cynnig gan Gyngor Cymuned Eglwyswrw yn ogystal â chynrychiolaeth gan Gyngor

Cymuned Crymych. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Crymych yn gwrthwynebu'r cynnig. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, ymweld â'r ardal ac ystyried y cynrychiolaethau rydym wedi'u derbyn. Rydym yn nodi bod y ffin a argymellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym wedi ystyried y dadleuon a gyflwynwyd o blaid ac yn erbyn trosglwyddo Eglwyswen i gymuned Eglwyswrw ac er ein bod yn derbyn y byddai cynnig gorsaf bleidleisio agosach i drigolion ardal yn fwy cyfleus i'r trigolion hynny, nid ydym yn fodlon bod cysylltiad digon agos rhwng ardal Eglwyswen a chymuned Eglwyswrw. Nid ydym yn fodlon y bydd y newid arfaethedig o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i drosglwyddo ardal Eglwyswen o gymuned Crymych i gymuned Eglwyswrw.

Cilgerran ac Eglwyswrw

5.15 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Rhos fach o gymuned Cilgerran i gymuned Eglwyswrw. Ni dderbyniodd Cyngor Sir Penfro unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig gan Gynghorau Cymuned Eglwyswrw na Chilgerran. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym yn fodlon y bydd y newid arfaethedig o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn argymell y dylid newid y ffin rhwng cymuned Cilgerran a chymuned Eglwyswrw fel y dangosir yn y map yn Atodiad 8.

5.16 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal ger Meigan Wells o gymuned Cilgerran i gymuned Eglwyswrw. Ni dderbyniodd Cyngor Sir Penfro unrhyw wrthwynebiad i'w cynnig gan Gynghorau Cymuned Eglwyswrw na Chilgerran. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r ffin a argymhellir yn cynnwys yr eiddo yn Llanfeigan sydd gerllaw eiddo tebyg yn yr ardal a argymhellir i gael ei throsglwyddo i Eglwyswrw. Er ein bod yn derbyn na chyflwynodd y naill gyngor cymuned na'r llall wrthwynebiad i'r argymhelliad, rydym o'r farn bod yr ardal a argymhellir i gael ei throsglwyddo yn debyg i ardaloedd cyfagos yng nghymunedau Cilgerran, Eglwyswrw a Chrymych ac nid oes dadl wedi'i chyflwyno sy'n ein hargyhoeddi pam y dylid cynnwys yr ardal hon yn Eglwyswrw. Felly, nid ydym yn derbyn cynnig Cyngor Sir Penfro i drosglwyddo'r ardal ger Meigan Wells o gymuned Cilgerran i gymuned Eglwyswrw.

Nanhyfer ac Eglwyswrw

5.17 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo rhan o ward Nanhyfer o gymuned Nanhyfer i gymuned Eglwyswrw. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Eglwyserw o blaid yr argymhelliad yn ogystal â chynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Nanhyfer yn gwrthwynebu. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan Gyngor Cymuned Nanhyfer a chwe pharti arall â diddordeb yn gwrthwynebu'r argymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, ymweld â'r ardal ac ystyried y cynrychiolaethau y gwnaethom eu derbyn. Nodwyd gennym bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Er ein bod yn nodi'r pwyntiau a wnaed gan Gyngor Cymuned Eglwyswrw fod yr ardal wrth ymyl Eglwyswrw ac yn golygu bydd modd i breswylwyr bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio agosach, nid ydym o'r farn bod dadl wedi'i chyflwyno sy'n ein hargyhoeddi sut byddai trosglwyddo ardal mor fawr o gymuned Nanhyfer o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae'n ymddangos i ni fel bod yr ardal a argymhellir i'w throsglwyddo yn debyg i ardaloedd cyfagos yn Nanhyfer ac Eglwyswrw fel ei gilydd ac nid oes ganddi gysylltiad

arwyddocaol ag Eglwyswrw. Nid ydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn derbyn argymhelliad Cyngor Sir Penfro i drosglwyddo rhan o ward Nanhyfer o gymuned Nanhyfer i gymuned Eglwyswrw.

Cas-mael ac Eglwyswrw

5.18 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal fach o gymuned Eglwyswrw i gymuned Cas-mael. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau o blaid yr argymhelliad gan Gyngor Cymuned Eglwyswrw a Chyngor Cymuned Cas-mael. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Nodwyd gennym hefyd ar ein map o'r ardal nad yw'r ffin gyfagos rhwng cymunedau Cwm Gwaun ac Eglwyswrw yn cadw at linell sydd wedi'i diffinio'n eglur a gellir ei hailosod i ffurfio pwynt syth rhwng dwy nodwedd ddaearyddol amlwg ar y tir. Byddai hynny'n golygu ailosod rhan fach o'r ffin rhwng cymunedau Cwm Gwaun ac Eglwyswrw. Felly, rydym yn cynnig y dylid ailosod y rhan hon yn ogystal ag ailosod y ffin rhwng cymunedau Cas-mael ac Eglwyswrw. Felly, rydym yn cynnig y newidiadau i'r ffiniau rhwng cymunedau Cas-mael ac Eglwyswrw a chymunedau Cwm Gwaun ac Eglwyswrw fel y dangosir yn y map yn Atodiad 9.

Llangwm a Freystrop

5.19 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Fferm Little Nash o gymuned Llangwm i gymuned Freystrop. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Cymuned Llangwm yn gwrthwynebu'r argymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym yn nodi mai dim ond drwy gymuned Freystrop y ceir mynediad i Fferm Little Nash ac er bod Cyngor Cymuned Llangwm wedi gwrthwynebu'r trosglwyddiad, nid oeddynt wedi cyflwyno dadl gref yn ei erbyn. Rydym yn fodlon bod y newid a argymhellir o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Llangwm a chymuned Freystrop fel y dangosir yn y map yn Atodiad 10.

5.20 Wrth ystyried argymhellion Cyngor Sir Penfro, fe nododd y Comisiwn ardal yn Fferm Trooper's Inn lle nad yw'r ffin rhwng cymunedau Freystrop a Llangwm yn dderbyniol ac roedd llinell mwy pendant ar gael gerllaw ar gyfer y ffin. Mae'r cam arfaethedig hwn i newid y ffin yn golygu bydd angen trosglwyddo ardal fach o gymuned Llangwm i gymuned Freystrop. Rydym yn fodlon bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Llangwm a chymuned Freystrop fel y dangosir yn y map yn Atodiad 11.

Freystrop a Hook

5.21 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo rhan o anheddiad Hook o gymuned Freystrop i gymuned Hook. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Freystrop yn gwrthwynebu cynnwys Little Milford yn y trosglwyddiad a argymhellir. Fe gytunodd Cyngor Sir Penfro wedi hynny na ddylai Little Milford gael ei gynnwys yn yr argymhelliad ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad pellach. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Mae'n ymddangos i ni fel petai'r ardal yn Freystrop a nodwyd gan y Cyngor yn eu hargymhelliad yn rhan o anheddiad

Hook ac y dylai gael ei chynnwys gyda gweddill yr anheddiad yng nghymuned Hook oherwydd hynny. Rydym yn fodlon bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Hook a chymuned Freystrop fel y dangosir yn y map yn Atodiad 12.

5.22 Yn ystod eu hystyriaethau ynghylch argymhellion Cyngor Sir Penfro, nododd y Comisiwn eiddo Stumpy Corner yng Nghymuned Hook na ellid mynd ato ond drwy Gymuned Freystrop. Ysgrifenasom at Gyngor Sir Penfro ynghylch ein cynnig i drosglwyddo'r eiddo yn Stumpy Corner o Hook i Freystrop a derbyniasom ymateb yn cynnwys sylwadau gan y Cynghorydd Michael John bod y trosglwyddiad arfaethedig yn ymddangos yn synhwyrol. Fodd bynnag, derbyniasom hefyd gynrychiolaeth ar ran perchennog Stumpy Corner a wnaeth wrthwynebu adlinio'r ffin ar sail bod cyswllt hanesyddol gan ei eiddo ef â Chymuned Hook ac ardal Little Milford. Er ein bod yn ystyried bod y ffin bresennol yn Stumpy Corner yn cyflwyno mân anomaledd o ran mynediad, rydym yn nodi mai un eiddo yn unig sy'n cael ei effeithio ac, yn sgil sefydlu y buasai'n well gan y perchennog barhau yng Nghymuned Hook, rydym yn fodlon y dylid cadw'r ffin bresennol.

Rosemarket a Freystrop

5.23 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal fach yn Fferm Trooper's Inn o gymuned Rosemarket i gymuned Freystrop. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Cymuned Freystrop yn ogystal â chynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Rosemarket yn awgrymu y gallai'r argymhelliad fod o les i breswylwyr yr ardal. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng yr anheddau hyn ag anheddau tebyg yn y rhan o Fferm Trooper's Inn sydd yn Freystrop. Rydym yn fodlon bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Rosemarket a chymuned Freystrop fel y dangosir yn y map yn Atodiad 11.

Rosemarket a Burton

5.24 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal yn Sardis o gymuned Rosemarket i gymuned Burton. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaethau o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Cymuned Burton a Chyngor Cymuned Rosemarket. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng yr ardal a gweddill anheddiad Sardis yng nghymuned Burton. Rydym yn fodlon bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Rosemarket a chymuned Burton fel y dangosir yn y map yn Atodiad 13.

Hundleton ac Angle

5.25 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ward Roscrowther o gymuned Hundleton i gymuned Angle. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn cynrychiolaeth parthed eu hargymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym yn fodlon bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Hundleton a chymuned Angle fel y dangosir yn y map yn Atodiad 14.

Mathri a Llanrhian

5.26 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal yn Square a Compass o gymuned Mathri i gymuned Llanrhian. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaeth o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Cymuned Llanrhian yn ogystal â chynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Mathri yn gwrthwynebu eu cynnig. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn y dylai anheddiad Square and Compass gael ei chynnwys yn llawn yn ardal yr un gymuned ac mai ei chynnwys yng nghymuned Llanrhian fyddai orau yn y pen draw. Yn ystod yr arolwg, fe nododd y Comisiwn nad oedd rhan fechan o'r ffin yr oedd Cyngor Sir Penfro yn cynnig ei newid yn bodoli mwyach. Felly, awgrymwyd y dylai cynnig y Cyngor gael ei newid rhywfaint er mwyn rhoi ystyriaeth i hyn. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Mathri a chymuned Llanrhian fel y dangosir yn y map yn Atodiad 15.

Camros a Hwlffordd

5.27 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo rhan o Haven Road a Douglas James Close o gymuned Camros i gymuned Hwlffordd. Nid oedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn unrhyw gynrychiolaeth parthed eu hargymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng yr ardaloedd ag adeiladau yn Haven Road a Douglas James Close ag ardaloedd tebyg cyfagos yn Hwlffordd. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Camros a chymuned Hwlffordd fel y dangosir yn y map yn Atodiad 16.

Camros a Nolton a'r Garn

5.28 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Courtfield Drive yn Simpson Cross o gymuned Nolton a'r Garn i gymuned Camros. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaeth o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Cymuned Nolton a'r Garn. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng yr ardaloedd ag adeiladau yn Courtfield Drive â'r ardal debyg gyfagos yn Camros. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Camros a chymuned Nolton a'r Garn fel y dangosir yn y map yn Atodiad 17.

Tiers Cross a Johnston

5.29 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal yn Milford Road o gymuned Tiers Cross i gymuned Johnston. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaethau o blaid eu hargymhellion gan Gyngor Cymuned Tiers Cross a Chyngor Cymuned Johnston. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng y ddwy annedd yn Milford Road yn Tiers Cross â'r ardal breswyl gyfagos yn Johnston. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Tiers Cross a chymuned Johnston fel y dangosir yn y map yn Atodiad 18.

Amroth a Chilgeti Begeli

5.30 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal yn Stepaside o gymuned Cilgeti Begeli i gymuned Amroth. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaeth o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Cymuned Amroth. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng yr ardal yn Stepaside yn Cilgeti Begeli ag ardal debyg gyfagos yn Amroth. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Cilgeti Begeli a chymuned Amroth fel y dangosir yn y map yn Atodiad 19.

Dwyrain Williamston a Chilgeti Begeli

5.31 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo rhan o ardal Kingsmoor Close o gymuned Cilgeti Begeli i gymuned Dwyrain Williamston. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaeth o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Cymuned East Williamston yn ogystal â chynrychiolaeth yn gwrthwynebu gan Gyngor Cymuned Cilgeti Begeli. Fe derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Cilgeti Begeli yn gwrthwynebu'r argymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol, nodi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym yn nodi fod Cyngor Cymuned Cilgeti Begeli o'r farn bod y llinell reilffordd a Heol Kingsmoor / yr Orsaf yn rhoi ffin naturiol rhwng eu cymuned a chymuned Dwyrain Williamston a bod preswylwyr Kingsmoor Close wedi mynegi y byddai'n well ganddynt aros yng Nghilgeti Begeli. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i ni fel bod y ffin gyfredol yn anomalaidd gan fod yr eiddo yn Kingsmoor Close drws nesaf i eiddo tebyg yn Nwyrain Williamston a'u bod ar wahân i unrhyw ardal debyg yng Nghilgeti Begeli sydd â mynediad i gerddwyr yn unig i'r gymuned honno. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Cilgeti Begeli a chymuned Dwyrain Williamston fel y dangosir yn y map yn Atodiad 20.

5.32 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo rhan o ardal Templebar Road o gymuned Cilgeti Begeli i gymuned Dwyrain Williamston. Nid oedd Cyngor Sir Penfro wedi derbyn unrhyw gynrychiolaeth parthed eu hargymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod cysylltiad amlwg rhwng yr eiddo yn Templebar Road yng nghymuned Cilgeti Begeli â'r eiddo tebyg cyfagos yn Templebar Road yn Nwyrain Williamston. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Cilgeti Begeli a chymuned Dwyrain Williamston fel y dangosir yn y map yn Atodiad 21.

Llanfair Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot

5.33 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Rushy Lake, Swallowtree a Broadfield o gymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod i gymuned Saundersfoot. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaeth o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Cymuned Saundersfoot yn ogystal â chynrychiolaethau a deiseb gyda 208 o lofnodion arno gan Gyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod a'r Cyng. Carol Cavill yn gwrthwynebu eu hargymhelliad. Fe dderbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan

Gyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod a 9 pharti arall â diddordeb yn gwrthwynebu'r argymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg ar wahân i'r pen dwyreiniol oedd yn rhannu parc carafanau, ac fe awgrymwyd y dylai cynnig y Cyngor gael ei newid rhywfaint er mwyn rhoi ystyriaeth i hyn. Rydym wedi nodi yn y gwrthwynebiadau bod mwyafrif y preswylwyr yn fodlon ar y trefniadau fel ag y maent. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yr eiddo a'r ardal o amgylch Nyth Gwennol a Chwm Gwennol yn amlwg yn rhan o'r ardal ag adeiladau yn ymyl deheuol Saundersfoot ac rydym wedi nodi fod yr ardal yn cael ei diffinio'n rhan o anheddiad Saundersfoot yng Nghyd-gynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Penfro. Rydym wedi nodi ac ystyried yr awgrym a godwyd yn y cynrychiolaethau y dylai'r eiddo yn Broadfield Hill barhau yng nghymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod hyd yn oed pe byddai Nyth Gwennol a Chwm Gwennol yn cael eu trosglwyddo i Saundersfoot. Fodd bynnag, nid tasg hawdd oedd canfod llinell dderbyniol ar gyfer ffin newydd heb orfod gwahanu eiddo sydd y drws nesaf i'w gilydd. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Saundersfoot a chymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod fel y dangosir yn y map yn Atodiad 22.

5.34 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal i'r de o'r A478 a Devonshire Drive o gymuned Saundersfoot i gymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod. Ni dderbyniodd Cyngor Sir Penfro unrhyw wrthwynebiadau i'w hargymhelliad. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Saundersfoot a chymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod fel y dangosir yn y map yn Atodiad 23.

Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod

5.35 Mae Cyngor Sir Penfro yn argymell trosglwyddo ardal Waterwynch o gymuned Dinbych-y-pysgod i gymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod. Fe dderbyniodd Cyngor Sir Penfro gynrychiolaethau o blaid eu hargymhelliad gan Gyngor Tref Dinbych-y-pysgod a Chyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod. Rydym wedi arolygu'r mapiau perthnasol ac wedi ymweld â'r ardal ac rydym o'r farn bod y ffin a argymhellir yn cadw at nodweddion daearyddol amlwg. Rydym o'r farn bod y newid hwn o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, rydym yn cynnig y dylid newid y ffin rhwng cymuned Dinbych-y-pysgod a chymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod fel y dangosir yn y map yn Atodiad 24.

6. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

6.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd angen i ni hefyd ystyried sut bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar drefniadau etholiadol cynghorau cymuned a'r prif awdurdod. Mae'r adran hon yn ein hadroddiad yn nodi ein cynigion ar gyfer y newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol cymunedol. Cyngor Sir Penfro a ddarparodd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

6.1 Gorchymyn (Trefniadau Etholiadol Cymunedol) Sir Benfro 2008 sy'n rhoi grym i'r trefniadau etholiadol cymunedol dan sylw yn y rhan hon o'r adroddiad. Cyngor Sir Penfro a ddarparodd y ffigurau etholiadol ac roeddent yn gywir ym mis Rhagfyr 2009.

6.2 Mae cymuned Scleddau wedi'i rhannu ar hyn o bryd yn wardiau cymunedol Gogledd Scleddau a De Scleddau at ddibenion etholiadol. Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Scleddau	Gogledd Scleddau	248	3	83
	De Scleddau	267	4	67
		515	**7**	**74**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

Nid yw cymuned Trecwn wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 265 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 6 chynghorydd gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 44 o etholwyr.

6.3 O dan y cynnig arfaethedig i uno cymunedau Scleddau a Threcwn, mae Cyngor Sir Penfro wedi argymell y dylai 3 chynghorydd gynrychioli pob ward. Rydym o'r farn bod y lefel hon o gynrychiolaeth yn dderbyniol yng nghymuned newydd Scleddau. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Scleddau	Gogledd Scleddau	248	3	83
	De Scleddau	267	3	89
	Trecwn	265	3	88
		780	**9**	**87**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.4 Mae cymuned Stackpole wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Bosheston a Stackpole at ddibenion etholiadol cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Stackpole	Bosheston	175	3	58
	Stackpole	209	3	70
		384	**6**	**64**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

Nid yw cymuned Castellmartin wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 117 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 6 chynghorydd gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 20 o etholwyr.

6.5 O dan y cynnig arfaethedig i uno cymunedau Stackpole a Chastellmartin, mae Cyngor Sir Penfro wedi argymell rhannu'r gymuned newydd yn ddwy ward Stackpole a Chastellmartin gyda 5 cynghorydd yn cynrychioli Stackpole a 2 gynghorydd yn cynrychioli Castellmartin. Rydym o'r farn bod y lefel hon o gynrychiolaeth yn dderbyniol

yng nghymuned newydd Stackpole a Chastellmartin. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Stackpole a Chastellmartin	Stackpole	384	5	77
	Castellmartin	117	2	59
		501	**7**	**72**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.6 Nid yw cymuned Slebech wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 127 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 6 chynghorydd gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 21 o etholwyr. Mae cymuned Uzmaston a Boulston wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 7 cynghorydd yn cynrychioli'r 496 o etholwyr sydd yno ar hyn o bryd gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 71 o etholwyr. O ganlyniad i drosglwyddo Heol Uzmaston o gymuned Uzmaston a Boulston i gymuned Hwlffordd, bydd 346 yn llai o etholwyr yno gan adael Uzmaston a Boulston gyda 150 o etholwyr.

6.7 O dan y cynnig arfaethedig i uno cymunedau Slebech ac Uzmaston a Boulston, rydym o'r farn y byddai cael 4 cynghorydd ym mhob ward cymunedol yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Uzmaston, Boulston a Slebech	Uzmaston a Boulston	150	4	38
	Slebech	127	4	32
		277	**8**	**35**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.8 Mae cymuned Rudbaxton wedi'i rhannu'n gymunedau Rudbaxton a Gogledd Prendergast at ddibenion etholiadol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Rudbaxton	Rudbaxton	718	9	80
	North Prendergast	179	2	90
		897	**11**	**82**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.9 O dan ein cynigion, bydd 130 yn llai o etholwyr yn ward Gogledd Prendergast i roi cyfanswm newydd o 49. Rydym yn sylweddoli bydd y gostyngiad sylweddol hwn yn nifer yr etholwyr yn ward Gogledd Prendergast yn golygu bod gwahaniaeth enfawr yn nifer yr etholwyr yn nwy ward Rudbaxton. Felly, rydym o'r farn y byddai cael gwared ar y wardiau yng nghymuned Rudbaxton o les o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus gan adael cymuned Rudbaxton gyda 767 o etholwyr. Rydym o'r farn y byddai cael 10 cynghorydd yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 77 o etholwyr.

6.10 Mae cymuned Hwlffordd wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol y Castell, Garth, Portfield, Prendergast a Phriordy at ddibenion etholiadol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Hwlffordd	Y Castell	1,640	3	547
	Garth	1,695	3	565
	Portfield	1,737	4	434
	Prendergast	1,345	3	448
	Priordy	1,910	4	478
		8,327	**17**	**490**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.11 O dan ein cynigion, bydd 130 yn fwy o etholwyr yn ward Prendergast i roi cyfanswm newydd o 1,475 etholwyr, bydd 346 yn fwy yn ward Priordy i roi cyfanswm newydd o 2,256 a bydd 46 yn fwy yn ward Portfield i roi cyfanswm newydd o 1,783 o etholwyr. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn y gymuned yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol yng nghymuned Hwlffordd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Hwlffordd	Y Castell	1,640	3	547
	Garth	1,695	3	565
	Portfield	1,783	4	446
	Prendergast	1,475	3	492
	Priordy	2,256	4	564
		8,849	**17**	**521**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.12 Nid yw cymuned Eglwyswrw wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 603 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 8 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 75 o bobl. O dan ein cynigion, bydd 4 yn fwy o etholwyr i roi cyfanswm newydd o 607 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 76 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y cynnydd hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.13 Nid yw cymuned Cilgerran wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 1,150 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 12 o gynghorwyr, gan olygu bydd un cynghorydd ar gyfer pob 96 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 6 yn llai o etholwyr yng nghymuned Cilgerran i roi cyfanswm newydd o 1,144 gan olygu bydd un cynghorydd ar gyfer pob 95 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.14 Mae cymuned Cas-mael wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Cas-mael a Chastell Henry at ddibenion etholiadol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Cas-mael	Cas-mael	296	4	74
	Chastell Henry	109	2	55
		405	**6**	**68**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.15 O dan ein cynigion, bydd 2 yn fwy o etholwyr yn ward Castell Henry gan roi cyfanswm newydd o 111. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol cyfredol yng nghymuned Cas-mael. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Cas-mael	Cas-mael	296	4	74
	Castell Henry	111	2	65
		407	**6**	**68**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.16 Nid yw cymuned Freystrop wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 468 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 6 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 78 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 42 yn llai o etholwyr yng nghymuned Freystrop i roi cyfanswm newydd o 426 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 71 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.17 Nid yw cymuned Llangwm wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 681 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 8 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 85 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 3 yn llai o etholwyr yng nghymuned Llangwm i roi cyfanswm newydd o 678 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 85 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.18 Nid yw cymuned Hook wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 592 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 7 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 85 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 48 yn fwy o etholwyr yng nghymuned Hook i roi cyfanswm newydd o 640 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 91 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y cynnydd hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.19 Nid yw cymuned Rosemarket wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 454 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 6 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 76 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 36 yn llai o etholwyr yng nghymuned Rosemarket i roi cyfanswm newydd o 418 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 70 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.20 Nid yw cymuned Angle wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 269 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 6 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 45 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 56 yn fwy o etholwyr yng nghymued Angle i roi cyfanswm newydd o 325 gan olygu bydd un cynghorydd ar gyfer pob 54 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y cynnydd hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.21 Nid yw cymuned Hundleton wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 675 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 8 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 84 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 56 yn llai o etholwyr yng nghymuned Hundleton i roi cyfanswm newydd o 619 gan olygu bydd un cynghorydd ar gyfer pob 77 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.22 Nid yw cymuned Llanrhian wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 748 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 9 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 83 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 25 yn fwy o etholwyr yng nghymuned Llanrhian i roi cyfanswm newydd o 773 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 86 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y cynnydd hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.23 Nid yw cymuned Mathri wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 473 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 6 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 79 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 25 yn llai o etholwyr yng nghymuned Mathri i roi cyfanswm newydd o 448 o etholwyr gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 75 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.24 Nid yw cymuned Camros wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 1,453 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 12 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 121 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 31 yn llai o etholwyr yng nghymuned Camros i roi cyfanswm newydd o 1,422 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 119 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.25 Mae cymuned Nolton a'r Garn wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Nolton a'r Garn at ddibenion etholiadau cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Nolton a'r Garn	Nolton	113	2	57
	Y Garn	515	6	86
		628	**8**	**79**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.26 O dan ein cynigion, bydd 15 yn llai o etholwyr yn ward y Garn i roi cyfanswm newydd o 500. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn y gymuned yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol yng nghymuned Nolton a'r Garn. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Nolton a'r Garn	Nolton	113	2	57
	Y Garn	500	6	83
		613	**8**	**77**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.27 Nid yw cymuned Johnston wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 1,468 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 12 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 122 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 7 yn fwy o etholwyr yng nghymuned Johnston i roi cyfanswm newydd o 1,475 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 123 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y cynnydd hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.28 Mae cymuned Tiers Cross wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Thornton a Tiers Cross at ddibenion etholiadau cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Tiers Cross	Thornton	136	2	68
	Tiers Cross	267	4	67
		403	**6**	**67**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.29 O dan ein cynigion, bydd 7 yn fwy o etholwyr yn ward Thornton i roi cyfanswm newydd o 129. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn y gymuned yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol yng nghymuned Tiers Cross. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Tiers Cross	Thornton	129	2	65
	Tiers Cross	267	4	67
		396	**6**	**66**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.30 Mae cymuned Cilgeti Begeli wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Cilgeti a Begeli at ddibenion etholiadau cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Cilgeti Begeli	Cilgeti	8	1,084	136
	Begeli	4	663	166
		12	**1,747**	**146**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.31 O dan ein cynigion, bydd 36 yn llai o etholwyr yn ward Cilgeti i roi cyfanswm o 1,048 a bydd 8 yn llai o etholwyr yn ward Begeli i roi cyfanswm newydd o 655. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn y gymuned yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol yng nghymuned Cilgeti Begeli. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Cilgeti Begeli	Cilgeti	8	1,048	131
	Begeli	4	655	164
		12	**1,703**	**142**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.32 Mae cymuned Dwyrain Williamston wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Dwyrain Williamston a Phentlepoir at ddibenion etholiadau cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Dwyrain Williamston	Dwyrain Williamston	422	3	141
	Pentlepoir	1,039	9	115
		1,461	**12**	**122**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.33 O dan ein cynigion, bydd 41 yn fwy o etholwyr yn ward Pentlepoir i roi cyfanswm newydd o 1,080. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn y gymuned yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol yng nghymuned Dwyrain Williamston. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Dwyrain Williamston	Dwyrain Williamston	422	3	141
	Pentlepoir	1,080	9	120
		1,502	**12**	**125**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.34 Mae cymuned Amroth wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Amroth a Crunwere at ddibenion etholiadau cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Amroth	Amroth	784	9	87
	Crunwere	245	3	82
		1,029	**12**	**86**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.35 O dan ein cynigion, bydd 3 yn fwy o etholwyr yn ward Amroth i roi cyfanswm newydd o 787. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn y gymuned yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol yng nghymuned Amroth. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Amroth	Amroth	787	9	87
	Crunwere	245	3	82
		1,032	**12**	**86**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.36 Nid yw cymuned Saundersfoot wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 2,123 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 12 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 177 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 175 yn fwy o etholwyr yng nghymuned Saundersfoot i roi cyfanswm newydd o 2,298 gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 192 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y cynnydd hwn yn nifer yr

etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.37 Nid yw cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol. Mae 522 o etholwyr yn y gymuned a gynrychiolir gan 7 o gynghorwyr, gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 75 o etholwyr. O dan ein cynigion, bydd 170 yn llai o etholwyr yng nghymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod i roi cyfanswm newydd o 170 o etholwyr gan olygu bod un cynghorydd ar gyfer pob 50 o etholwyr. Nid ydym o'r farn bod y gostyngiad hwn yn nifer yr etholwyr yn golygu bod angen mwy o gynghorwyr i gynrychioli'r gymuned. Felly, bydd y trefniadau etholiadol cyfredol yn parhau'r un fath.

6.38 Mae cymuned Dinbych-y-pysgod wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Gogledd Dinbych-y-pysgod a De Dinbych-y-pysgod at ddibenion etholiadau cymunedol. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Dinbych-y-pysgod	Gogledd Dinbych-y-pysgod	6	1,685	281
	De Dinbych-y-pysgod	7	1,799	257
		13	**3,484**	**268**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

6.39 O dan ein cynigion, bydd 5 yn llai o etholwyr yn ward Gogledd Dinbych-y-pysgod i roi cyfanswm newydd o 1,680. Rydym o'r farn bod nifer y cynghorwyr ym mhob ward ar hyn o bryd yn y gymuned yn rhoi lefel briodol o gynrychiolaeth. Felly, nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol yng nghymuned Dinbych-y-pysgod. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer arfaethedig yr etholwyr a chynghorwyr ym mhob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Dinbych-y-pysgod	Gogledd Dinbych-y-pysgod	6	1,680	280
	De Dinbych-y-pysgod	7	1,799	257
		13	**3,479**	**268**

*E/C – etholwyr fesul cynghorydd

Trefniadau etholiadau cyngor sir

6.40 Mae gan adran etholiadol Rudbaxton, sy'n cynnwys cymunedau Rudbaxton ac Uzmaston a Boulston, 1,393 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymunedau Rudbaxton ac Uzmaston a Boulston yn golygu bydd nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Rudbaxton yn gostwng i 917.

6.41 Mae gan adran etholiadol Prendergast: Hwlffordd, sy'n rhannu'r un ffiniau â ward Prendergast yng nghymuned Hwlffordd, 1,345 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymuned Hwlffordd yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Prendergast: Hwlffordd yn cynyddu i 1,475.

6.42 Mae gan adran etholiadol Priordy: Hwlffordd, sy'n rhannu'r un ffiniau â ward Priordy yng nghymuned Hwlffordd, 1,910 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymuned Hwlffordd yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Priordy: Hwlffordd yn cynyddu i 2,256.

6.43 Mae gan adran etholiadol Portfield: Hwlffordd, sy'n rhannu'r un ffiniau â ward Portfield yng nghymuned Hwlffordd, 1,737 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymuned Hwlffordd yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Portfield: Hwlffordd yn cynyddu i 1,783.

6.44 Mae gan adran etholiadol Crymych, sy'n cynnwys cymunedau Crymych ac Eglwyswrw, 1,890 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Eglwyswrw yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Crymych yn gostwng i 1,894.

6.45 Mae gan adran etholiadol Cilgerran, sy'n cynnwys cymunedau Cilgerran a Maenordeifi 1,565 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Eglwyswrw yn golygu bydd nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cilgerran yn cynyddu i 1,559.

6.46 Mae gan adran etholiadol Dinas Cross, sy'n cynnwys cymunedau Cwm Gwaun, Dinas Cross a Chas-mael, 1,682 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Cas-mael yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Dinas Cross yn cynyddu i 1,684.

6.47 Mae gan adran etholiadol Llangwm, sy'n cynnwys cymunedau Freystrop, Llangwm a Hook, 1,741 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Freystrop yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Llangwm yn cynyddu i 1,744.

6.48 Mae gan adran etholiadol Burton, sy'n cynnwys cymunedau Burton a Rosemarket, 1,459 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Rosemarket yn golygu bydd nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Burton yn gostwng i 1,456.

6.49 Mae gan adran etholiadol Camros, sy'n cynnwys cymunedau Camros a Nolton a'r Garn, 1,968 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Camros yn golygu bydd nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Burton yn gostwng i 1,922.

6.50 Mae gan adran etholiadol Cilgeti / Begeli, sy'n rhannu'r un ffiniau â ward cymuned Cilgeti Begeli, 1,084 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymuned Cilgeti Begeli yn golygu bydd nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Cilgeti / Begeli yn gostwng i 1,040.

6.51 Mae gan adran etholiadol Amroth, sy'n rhannu'r un ffiniau â ward cymuned Amroth, 1,029 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymuned Amroth yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Amroth yn cynyddu i 1,032.

6.52 Mae gan adran etholiadol Dwyrain Williamston, sy'n cynnwys cymunedau Dwyrain Williamston a Jeffreyston, 1,899 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Dwyrain Williamston yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Dwyrain Williamston yn cynyddu i 1,940.

6.53 Mae gan adran etholiadol Penalun, sy'n cynnwys cymunedau Penalun, Llanfair Dinbych-y-pysgod a ward Gumfreston yng nghymuned St. Florence, 1,304 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newid a gynigir i ffin cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgodyn golygu bydd nifer yr etholwyr yn isadran etholiadol Penalun yn gostwng i 1,134.

6.54 Mae gan adran etholiadol Saundersfoot, sy'n rhannu'r un ffiniau â ward cymuned Saundersfoot, 2,123 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymuned Saundersfoot yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Amroth yn cynyddu i 2,298.

6.55 Mae gan adran etholiadol Gogledd Dinbych-y-pysgod, sy'n rhannu'r un ffiniau â ward Gogledd Dinbych-y-pysgod yng nghymuned Dinbych-y-pysgod, 1,685 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd. Byddai'r newidiadau a gynigir i ffiniau cymuned Dinbych-y-pysgod yn golygu bod nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Gogledd Dinbych-y-pysgod yn gostwng i 1,680.

6.56 O ran y newidiadau yn nifer yr etholwyr yn yr holl adrannau etholiadol uchod yn sgîl y newidiadau a gynigir i'r ffiniau, nid ydym o'r farn bod y newidiadau hyn yn ddigon sylweddol i orfod cael mwy neu lai o gynghorwyr i gynrychioli pob adran etholiadol. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr holl brif gynghorau yng Nghymru a byddwn yn edrych yn fanwl ar drefniadau etholiadol Cyngor Sir Penfro maes o law ac yn ystyried unrhyw newidiadau a ddaw yn sgîl y newidiadau hyn a gynigir i ffiniau cymunedau.

6.57 Mae gennym newidiadau arfaethedig i ffiniau cymunedau Slebech ac Uzmaston a Boulston sy'n croesi ffiniau etholaethau seneddol Preseli Cyngor Sir Penfro a Gorllewin Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro. Bydd Comisiwn Ffiniau seneddol Cymru yn cael gwybod am y cynnig hwn maes o law.

7. YMATEB I'R ADRODDIAD HWN

7.1 Gan ein bod wedi ystyried yr arolwg o ffiniau cymunedol yn Sir Benfro a chyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol o dan y Ddeddf.

7.2 Cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach yw gweithredu'r cynigion hyn, os ydyw'n cytuno â hwy. Gall y rhain fod fel ag y cawsant eu cyflwyno gan y Comisiwn neu wedi'u haddasu, ac os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu gweithredu'r cynigion hyn gydag addasiadau, gall gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach.

7.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau ychwanegol ynghylch y materion hyn at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cyflwyno'r rhain cyn gynted ag y bo modd a chyn pen

chwe wythnos ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno'r argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cyflwyno cynrychiolaethau i'r:

Tîm Democratiaeth
Adran Bolisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Ebrill 2010

ADRODDIAD AROLWG CYMUNEDOL CYNGOR SIR PENFRO
CRYNODEB O'R ARGYMHELLION TERFYNOL

Scleddau a Threcwn

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Scleddau a chymuned Trecwn i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 3 ward, sef Gogledd Scleddau, De Scleddau a Threcŵn. Bydd 3 chynghorydd cymuned yn cynrychioli pob ward. ***Scleddau*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd.

Castellmartin a Stackpole

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Castellmartin a chymuned Stackpole i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 2 ward, sef Stackpole gyda 5 cynghorydd cymuned a Chastellmartin gyda 2 gynghorydd cymuned. ***Stackpole a Chastellmartin*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd.

Treamlod a Spittal

Sylwer: Mae Cyngor Cymuned Sir Benfro yn cyflwyno'r cynnig hwn ar yr amod *'y gofynnir i'r Comisiwn ystyried yn fanwl ac yn briodol y pryderon a fynegwyd gan y cymunedau perthnasol o ran y gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol cydnabyddedig rhwng y cymunedau hyn'.*

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Treamlod a chymuned Spittal i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 2 ward, sef Treamlod gyda 3 chynghorydd cymuned a Spittal gyda 5 cynghorydd cymuned. ***Treamlod a Spittal*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd

Clunderwen a Gorllewin Llandysilio

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Clunderwen a chymuned Gorllewin Llandysilio i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 2 ward, sef Clunderwen gyda 6 chynghorydd cymuned a Llandysilio gyda 6 chynghorydd cymuned. ***Clunderwen a Llandysilio*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd

Dale a Marloes a Sain Ffraid

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Dale a chymuned Marloes a Sain Ffraid i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 2 ward, sef Dale gyda 2 gynghorydd a Marloes gyda 4 cynghorydd. ***Coastlands*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd. Roedd Cyngor Sir Penfro o'r farn hwyrach y bydd angen trafodaeth bellach er mwyn cytuno ar enw'r gymuned newydd a gynigir.

Herbrandston a Llanisan yn Rhos

Sylwer: Mae Cyngor Sir Penfro yn cyflwyno'r cynnig hwn ar yr amod *'y gofynnir i'r Comisiwn ystyried yn fanwl ac yn briodol y pryderon a fynegwyd gan y cymunedau perthnasol o ran y gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol cydnabyddedig rhwng y cymunedau hyn'.*

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Herbrandston a chymuned Llanisan yn Rhos i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 2 ward, sef Herbrandston gyda 4 cynghorydd a Llanisan yn Rhos gyda 5 cynghorydd. ***Herbrandston a Llanisan yn Rhos*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd.

Llawhaden a Slebech

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Llawhaden a chymuned Slebech i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 2 ward, sef Llawhaden gyda 6 chynghorydd a Slebech gyda 2 gynghorydd. ***Canaston*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd. Roedd Cyngor Sir Penfro o'r farn hwyrach y bydd angen trafodaeth bellach er mwyn cytuno ar enw'r gymuned newydd a gynigir.

Rudbaxton a Hwlffordd

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Rudbaxton a chymuned Hwlffordd er mwyn trosglwyddo ardal o ward Gogledd Prendergast yn Ffordd Aberteifi o Rudbaxton i Hwlffordd.

Uzmaston a Boulston a Hwlffordd

Newid a gynigir i'r ffin rhwng cymuned Uzmaston a Boulston a chymuned Hwlffordd er mwyn trosglwyddo ardal yn Ffordd Uzmaston o Uzmaston a Boulston i Hwlffordd.

Rudbaxton ac Uzmaston a Boulston

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig cyfuno cymuned Rudbaxton a chymuned Uzmaston a Boulston i ffurfio cymuned newydd sy'n cynnwys 2 ward, sef Rudbaxton gyda 9 o gynghorwyr ac Uzmaston gyda 2 o gynghorwyr. ***Crundale*** yw'r enw a gynigir ar gyfer y gymuned newydd. Roedd Cyngor Sir Penfro o'r farn hwyrach y bydd angen trafodaeth bellach er mwyn cytuno ar enw'r gymuned newydd a gynigir.

Llanstadwell a Rosemarket

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Llanstadwell a chymuned Rosemarket er mwyn trosglwyddo ardal o Jordanston / Parc Santes Fair o Llanstadwell i Rosemarket.

Maenordeifi a Chilgerran

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Maenordeifi a chymuned Cilgerran er mwyn trosglwyddo ardal Pontrhydyceirt o Faenordeifi i Gilgerran.

Cilgeti a Begeli a Dwyrain Williamston 1 – Kingsmoor Close

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Cilgeti a Begeli a chymuned Dwyrain Williamston er mwyn trosglwyddo ardal Kingsmoor Close o Gilgeti a Begeli i Ddwyrain Williamston.

Cilgeti a Begeli a Dwyrain Williamston 2 – Templebar Road

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Cilgeti a Begeli a chymuned Dwyrain Williamston er mwyn trosglwyddo ochr ogleddol Templebar Road o Gilgeti a Begeli i Ddwyrain Williamston.

Llangwm a Freystrop 1 – Fferm Little Nash

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Llangwm a chymuned Freystrop er mwyn trosglwyddo ardal Fferm Little Nash o Langwm i Freystrop.

Nanhyfer ac Eglwyswrw

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Nanhyfer a chymuned Eglwyswrw er mwyn trosglwyddo rhan o ward Nanhyfer o Nanhyfer i Eglwyswrw.

Llanfair Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot 1 - Rushy Lake/Swallowtree/Broadfield

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod a chymuned Saundersfoot er mwyn trosglwyddo ardal Rushy Lake/Swallowtree/Broadfield o Lanfair Dinbych-y-pysgod i Saundersfoot.

Llanfair Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot 2 – Devonshire Drive

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod a chymuned Saundersfoot er mwyn trosglwyddo'r ardal sy'n ymestyn ar hyd yr A478 o gylchfan Twycross i'r gyffordd gyda Devonshire Drive hyd at ffin cymuned St. Florence o Saundersfoot i Lanfair Dinbych-y-pysgod.

Camros a Hwlffordd

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Camros a chymuned Hwlffordd er mwyn trosglwyddo rhan fechan o Haven Road a Douglas James Close o Gamros i Hwlffordd.

Cilgerran ac Eglwyswrw 1 – Meigan Wells

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Cilgerran a chymuned Eglwyswrw er mwyn trosglwyddo rhan fechan o ward Bridell ger Meigan Wells o Gilgerran i Eglwyswrw.

Cilgerran ac Eglwyswrw 2 – Rhos fach

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Cilgerran a chymuned Eglwyswrw er mwyn trosglwyddo rhan fechan o ward Bridell yn Rhos fach, i'r de o Fferm Llantood o Gilgerran i Eglwyswrw.

Cas-mael ac Eglwyswrw

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Cas-mael a chymuned Eglwyswrw er mwyn trosglwyddo rhan fechan o gymuned Eglwyswrw i gymuned Cas-mael.

Freystrop a Hook

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Freystrop a chymuned Hook er mwyn trosglwyddo'r rhan o anheddiad Hook sydd yn Freystrop ar hyn o bryd i gymuned Hook.

Hundleton ac Angle

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Hundleton a chymuned Angle er mwyn trosglwyddo ward Rhoscrowther o gymuned Hundleton i gymuned Angle.

Cilgeti a Begeli ac Amroth

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Cilgeti a Begeli a chymuned Amroth er mwyn trosglwyddo ardal fechan yn Stepaside o Gilgeti a Begeli i Amroth.

Mathri a Llanrhian

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Mathri a chymuned Llanrhian er mwyn trosglwyddo rhan o anheddiad Square and Compass o Fathri i Lanrhian.

Nolton a'r Garn a Chamros

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Nolton a'r Garn a chymuned Camros er mwyn trosglwyddo Courtfield Drive, Simpson Cross o Nolton a'r Garn yng Nghamros.

Rosemarket a Burton

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Rosemarket a chymuned Burton er mwyn trosglwyddo rhan fechan yn Sardis o Rosemarket i Burton.

Rosemarket a Freystrop

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Rosemarket a chymuned Freystrop er mwyn trosglwyddo ardal fechan yn Troopers Inn o Rosemarket i Freystrop.

Llanfair Dinbych-y-pysgod a Dinbych-y-pysgod

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod a chymuned Dinbych-y-pysgod er mwyn trosglwyddo ardal Waterwynch o DDinbych-y-pysgod i Lanfair Dinbych-y-pysgod.

Tiers Cross a Johnston

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Tiers Cross a chymuned Johnston er mwyn trosglwyddo ardal yn Milford Road o Tiers Cross i Johnston.

Crymych ac Eglwyswrw

Mae Cyngor Sir Penfro yn cynnig newid y ffin rhwng cymuned Crymych a chymuned Eglwyswrw er mwyn trosglwyddo rhan o wardiau Eglwyswen a Nant Gwyn o Grymych i Eglwyswrw.

Crynodeb o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn ymateb i Arolwg Cymunedol Sir Benfro

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Treamlod** i wrthwynebu'r cynnig i gyfuno Ambleston a Spittal oherwydd y rhesymau canlynol:

- Mae gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol amlwg rhwng y ddwy gymuned. Mae llinell 'Landsker' yn gwahanu'r ddwy gymuned, gyda Threamlod yn gymuned Gymreig yn bennaf tra bod Spittal yn gymuned Seisnig yn bennaf. Byddai colli unrhyw ran o'r Cymreictod hwn mewn cymuned yn drychinebus;
- Byddai Treamlod yn colli 50% o'i chynrychiolaeth, sef tri chynghorydd yn lle chwech;
- Byddai mwy o gostau oherwydd y teithio ychwanegol a fyddai'n angenrheidiol i gynghorwyr cymuned;
- Fe gafodd Cynghorau Cymuned Treamlod a Spittal eu cynnwys yn Astudiaeth Ymchwil Prifysgol Aberystwyth 'Rôl, Swyddogaeth a Phosibilrwydd Cynghorau Cymuned a Thref Cymru yn y Dyfodol'. Daeth i'r casgliad bod Treamlod yn fach ond yn effeithlon a gweithgar ac ni wnaeth unrhyw argymhelliad i gyfuno'r ddau gyngor cymuned.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Cilgerran** i gymeradwyo'r cynnig arfaethedig i symud ardal Pontrhydyceirt o Faenordeifi i Gilgerran oherwydd y rhesymau canlynol:

- Mae plant yr ardal yn mynychu Ysgol Cilgerran;
- Byddai gan y preswylwyr fynediad am ddim i'r ganolfan bywyd gwyllt a'r castell;
- Byddai'r preswylwyr yn derbyn copïau am ddim o gylchgrawn lleol Corwg lleol;
- Mae cyfeiriadau post y preswylwyr yng Nghilgerran gan olygu y byddai hyn yn hwyluso pethau i'r gwasanaethau brys a phost/dosbarthu;
- Mae Pontrhydyceirt wedi bod yn gysylltiedig â Chilgerran a Llwyncelyn ym mhob cynllun datblygu yn y gorffennol;
- Bydd y preswylwyr yn gallu mynd i orsaf bleidleisio agosach.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Clunderwen** i wrthwynebu'r cynnig i gyfuno gyda Chyngor Cymuned Llandysilio. Fe gyflwynon nhw gopi o'u cynrychiolaethau i'r cyngor sir, a dyma grynodeb ohonynt:

Ym marn y cyngor cymuned, ni fyddai'r cynnig yn arwain at lywodraeth leol effeithiol a chyfleus a byddai'n niweidiol i'r holl etholwyr yn eu cymuned. Maent o'r farn bod y cyngor cymuned yn cynnig rôl effeithiol a chyfleus mewn llywodraeth leol ac yn rhoi gwerth da am arian yn ogystal â gwasanaeth ardderchog. Byddai cyngor cymuned wedi'i gyfuno, yn eu barn nhw, yn wasanaeth 'anghyfleus ac anhydrin' a byddai'n anodd iddo wasanaethu ardal hynod wledig yn effeithlon neu'n gyfleus. Fe gyflwynon nhw hefyd restr o wrthwynebiadau, sef:

- Mae 54 yn fwy o etholwyr yn mynd i fod yn yr ardal a bydd nifer yr etholwyr yn parhau i gynyddu erbyn 2012 o ganlyniad i ddatblygiadau/tiroedd sydd heb eu cwblhau;
- Nid yw'r cymunedau yn rhannu unrhyw gyfleusterau. Mae etholwyr Clunderwen yn defnyddio neuadd a meysydd chwarae yn gyson. Y cyngor sir sy'n berchen ar adeilad Llandysilio;

- £12.86 yw'r archebiant ar gyfer Clunderwen a £7.10 yw'r archebiant ar gyfer Llandysilio. Byddai hynny'n golygu trefniant ariannu o 65% a 35% mewn cymuned ar y cyd;
- Mae Cyngor Cymuned Clunderwen yn flaenllaw o ran cynorthwyo ac ariannu sefydliadau lleol yn y gymuned. Ni fyddai'r sefydliadau hyn yn gallu gweithredu heb y lefel yma o gefnogaeth ganddynt;
- Byddai'r newid arfaethedig yn nifer y cynghorwyr yn golygu na fyddai'r ddwy gymuned yn cael ei chynrychioli'n gyfartal;
- Byddai clerc yn colli ei swydd.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Crymych** i fynegi eu gwrthwynebiad i'r cynnig i newid rhan o'u cymuned i Gyngor Cymuned Eglwyswrw. Roeddent yn bryderus nad oedd unrhyw sôn am drosglwyddo cynghorwyr yn y cynnig ac y byddai'r preswylwyr yn yr ardal dan sylw yn colli eu cynrychiolaeth. Maent o'r farn bod 95 o gartrefi yn nifer sylweddol ac y byddai eu cynnwys yn Eglwyswrw yn gam anymarferol. Maent yn nodi bod y cyngor cymuned yn un o ymddiriedolwyr Cronfa Beni Edwards – cronfa elusen sy'n dyrannu arian bob blwyddyn i bobl ifanc ym Mhlwyf Eglwyswen – ac y byddai'r newid yn effeithio ar sut gweinyddir y gronfa gan ei bod angen gwybodaeth leol y cynghorwyr yn y gymuned. Roeddent hefyd yn bryderus am y diffyg ymgynghori ar y mater.

Gwrthwynebodd **Cyngor Cymuned Herbrandston** y cynnig i gyfuno cymunedau Herbrandston a Llanisan yn Rhos. Nodwyd ganddynt y byddai cyngor mwy sydd wedi'i gyfuno yn cynyddu'r llwyth gwaith, yn golygu bod angen talu cyflog i glerc y cyngor a threuliau teithio i'r aelodau gan gynyddu'r costau yn sylweddol o gymharu â'r trefniadau presennol. Roedd gan y cynghorau cymuned cyfredol lefelau gwahanol o archebiant, ymrwymiadau gwariant gwahanol a phe byddai'r ddau yn cael eu cyfuno, byddai gwrthdaro mewn polisïau gwariant a fyddai'n niweidio un gymuned neu'r llall. Roeddent o'r farn na fyddai cyfuno yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir gan y cyngor cymuned i'r preswylwyr pe byddai penderfyniadau'n cael eu gorfodi arnynt gan fwyafrif mewn pentref cyfagos. Mewn pentref bychan, mae'n bwysig bod y pentref yn rhoi'r argraff ei fod yn gyfrifol am ei drefniadau ei hun. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y ddau bentref ac mae cilfach rhyngddynt nad oes modd ei chroesi dim ond dwywaith y dydd pan fo'r llanw allan. Mae'r ffordd fawr arall yn saith milltir o hyd a'r tu allan i'r ddwy gymuned yn rhannol.

Amgaeodd y cyngor ohebiaeth yr oeddynt wedi'i derbyn gan breswylwyr lleol yn gwrthwynebu'r cynnig arfaethedig i gyfuno ynghyd â deiseb gyda 205 o lofnodion.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Cilgeti Begeli** i wrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo Kingsmoor Close i Gyngor Cymuned Dwyrain Williamston. Roedd y cyngor o'r farn bod y ffin bresennol, sef y ffordd a'r llinell reilffordd, yn rhoi ffin naturiol ac effeithiol. Roeddent hefyd yn bryderus am y ffaith nad ymgynghorwyd â'r preswylwyr a fyddai'n cael eu heffeithio. Maent wedi holi'r preswylwyr ac maent wedi cael gwybod eu bod yn dymuno aros o fewn ffin Cilgeti Begeli.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Llanstadwell** i wrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo Jordanston/Parc Santes Fair i Rosemarket oherwydd y rhesymau canlynol:

- Mae'r preswylwyr yn gwrthwynebu'r newid yn gryf;
- Er eu bod yn gymharol agos at ei gilydd, maent yn cael eu gwahanu gan un o lednentydd Aberdaugleddau sy'n rhedeg drwy ddyffryn serth ac yn cynnwys coridor o harddwch naturiol eithriadol. Mae'r ffin naturiol hon wedi gwahanu'r cymunedau ers 1536;

- Byddai colli'r ardal yn cael effaith sylweddol ar gymuned Llanstadwell gan eu bod yn weithgar ac yn gefnogol mewn materion cymunedol, yn enwedig Cymdeithas (Cymunedol) Preswylwyr Jordanston;
- Bydd y ffin a gynigir yn rhannu sawl fferm;
- Mae honiad cymunedau Rosemarket y bydd Rosemarket yn cynnig cyfleusterau i St Mary's Park (Jordanston) yn gamarweiniol;
- Pentref yw Rosemarket. Mae St Mary's Park yn ardal wledig ac yn nodweddiadol o gymuned ehangach Llanstadwell;
- Nid oes modd teithio i Rosemarket yn rhwydd ac nid ydyw wedi cael ei ddatblygu mewn unrhyw ffordd;
- Amgaewyd arolwg oedd yn nodi barn y preswylwyr - roedd 6 o blaid y newid (11%), roedd 43 yn erbyn (78%) ac nid oedd barn gan 6 ohonynt (11%).

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Maenordeifi** i wrthwynebu'n gryf y cynnig arfaethedig i drosglwyddo ardal Pontrhydyceirt o Faenordeifi i Gilgerran. Mae'r rhesymau wedi'u hanfon ar ffurf sawl cyflwyniad i'r cyngor sir ac maent yn seiliedig yn bennaf ar wrthwynebiad y 'mwyafrif llethol' a holwyd i'r trosglwyddiad. Fe roddodd Cyngor Sir Penfro grynodeb i ni o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd ganddynt. Dyma grynodeb ohonynt:

- Mae'r Cynghorydd Alan Wilson wedi cynrychioli Pontrhydyceirt ers 26 o flynyddoedd ac nid oedd cymuned Pontrhydyceirt wedi teimlo'n rhan o Lwyncelyn neu Gilgerran yn ystod y cyfnod hwnnw;
- Fe dderbyniodd y pentref bach arwydd gyda'i enw arno 12 mlynedd yn ôl ac maent yn falch iawn o hyn. Fe ystyriwyd y byddai trosglwyddo i Gilgerran yn tanseilio eu hunaniaeth unigol sy'n bwysig iawn iddynt;
- Mae'r preswylwyr yn teimlo bod Cyngor Cymuned Maenordeifi yn eu cynrychioli'n dda ac wedi ymateb yn deg i'r mater hwn;
- O ran maint, roedd y gymuned o'r farn y byddai aros gyda Maenordeifi yn fwy addas iddynt. Roeddynt yn teimlo y byddent yn cael eu colli yng nghymuned fwy Cilgerran ac na fyddai eu hanghenion yn cael yr un chwarae teg ag yr oeddynt o dan ofal Maenordeifi;
- Nid oes cysylltiad â Chilgerran o ran presenoldeb mewn ysgolion. Ar hyn o bryd, mae pedwar o blant yn Pontrhydyceirt. Mae Ysgol Cilgerran yn ysgol ar gyfer yr ardal gyfan ac mae plant o bob rhan o'r ardal yn ei mynychu oherwydd bod ysgolion eraill wedi cau. Mae plant yng nghymuned Maenordeifi yn mynychu ysgolion yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, felly nid oes cysylltiad agos ag Ysgol Cilgerran;
- Nid oedd y pellter o orsaf bleidleisio yn ddadl sy'n dal dŵr gan fod disgwyl i bobl mewn ardaloedd gwledig orfod teithio i orsaf bleidleisio;
- Mae Pontrhydyceirt yn cynnwys 15 o gartrefi a 30 o etholwyr. Holwyd pob cartref pan gynigwyd y cynnig am y tro cyntaf. Fe ymatebodd 73% (11) o'r cartrefi a nododd 53% (8) eu bod yn dymuno aros ym Maenordeifi;
- Nid yw'r ddadl ynghylch darparu gwasanaethau brys yn dal dŵr gan nad yw'r gwasanaethau brys yn defnyddio ffiniau cymunedol i ddod o hyd i gartrefi;
- Byddai'r cynnig yn gorfodi preswylwyr Pontrhydyceirt i dalu £5-6 yn fwy o dreth y cyngor bob blwyddyn;
- Byddai'r newidiadau i'r archebiant yn cael mwy o effaith ar breswylwyr Maenordeifi oherwydd byddai'n rhaid iddynt dalu costau uwch i dalu'r diffyg ariannol;
- Mae preswylwyr Pontrhydyceirt eisoes yn derbyn copïau o gylchgrawn Corwg am ddim;

- Roedd cymuned Pontrhydyceirt yn ystyried bod Cilgerran yn teimlo'n drefol o ran ei natur o gymharu â'u cymuned wledig nhw.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Marloes a Sain Ffraid** yn gyntaf oll i ddiolch i'r Comisiwn am y cyfle i gwrdd â nhw. Mae'r cyngor cymuned 'gant y cant yn erbyn' y cynnig i gyfuno â Chyngor Cymuned Dale. Dyma oedd eu harsylwadau:

- Yn sgîl llwyth gwaith clerc y cyngor cymuned arfaethedig, a'r ffaith nad yw clerc Cyngor Cymuned Dale yn hawlio unrhyw dâl, bydd y costau yn cynyddu. Yn ogystal, hwyrach y bydd cynghorwyr cymuned y cyngor newydd yn hawliau treulio teithio;
- Byddai'r diffyg cydraddoldeb o ran nifer y cynghorwyr yn y cyngor cymuned arfaethedig yn rhoi cryn faich ar gynghorwyr Dale;
- Mae gan y ddwy gymuned hunaniaeth benodol y dylid eu parchu;
- Mae'n anodd i'r cynghorwyr presennol roi cynrychiolaeth effeithiol ar gyrff mewnol ac allanol ar hyn o bryd. Bydd lleihau'r ardal a gorfodi cynghorwyr i gynrychioli mwy o'r ardal yn gwneud y sefyllfa'n anoddach fyth;
- Mae'r cyngor cymuned o'r farn ei fod yn cynnig gwasanaeth effeithlon ar hyn o bryd i gymuned Marloes a Sain Ffraid; wedi dangos rheolaeth wleidyddol ac ariannol cadarn; yn gallu ymgymryd â phrosiectau lleol mawr nad ydynt yn ddrud i'r gymuned leol; yn gallu dylanwadu ar bolisi ar lefel sirol; ac maent yn dadlau yn erbyn y ddadl y bydd cyngor newydd yn fwy effeithlon a chyfleus na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Nanhyfer** i wrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo rhan o'u cymuned hanesyddol i Eglwyswrw. Roeddent yn bryderus am y diffyg ymgynghori ar y mater.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Slebech** i nodi eu bod 'gant y cant' yn erbyn y cynnig i gyfuno â Llawhaden oherwydd y rhesymau canlynol:

- Bydd Slebech yn colli ei hunaniaeth fel cymuned hen iawn sy'n cynnwys Marchogion Sant Ioan, sef rhagflaenwyr gwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan. Mae colli enw hynafol y plwyf yn annerbyniol. Nid yw Canaston yn ardal gydnabyddedig ac nid yw'r ardal goediog y mae'n cyfeirio ato yn y ddwy gymuned beth bynnag.
- Mae 'gwahaniaeth enfawr rhwng y ffordd y mae'r cymunedau'n gweithredu'. Mae Slebech wedi ffurfio Cymdeithas Rhos a'r Cyffiniau sef elusen hunangynhaliol a weinyddir gan y cyngor cymuned sy'n gwneud gwaith cymdeithasol a chymunedol. Mae Llawhaden yn defnyddio eu harchebiant i wneud gwaith cymdeithasol na fyddai'n bodloni anghenion ein cymuned ni'.
- Mae Llawhaden yn ardal wledig yn bennaf tra bod y rhan fwyaf o ardal Slebech ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac mae ganddi awdurdod cynllunio a datblygu gwahanol. Mae poblogaeth Slebech yn fach oherwydd y cyfyngiadau datblygu, ond mae busnesau mawr ym mharc diwydiannol yr ardal ac mae datblygiad twristaidd yno. Byddai'n anodd i gynghorwyr o'r tu allan ei gweinyddu oherwydd bod angen arbenigedd cynllunio awdurdod gwahanol. Byddai hyn yn cymryd llawer iawn o amser, yn enwedig pe byddai gan Slebech ddau gynghorydd.
- £3.61 fesul unigolyn yw archebiant Slebech o gymharu â £8.80 yn Llawhaden. Mae Cyngor Cymuned Slebech yn rhad ac yn effeithiol.
- Fe awgrymwyd, pe byddai'n rhaid cyfuno, y dylai hyn gael ei wneud gyda naill ai Uzmaston neu Wiston gan fod cysylltiadau cymdeithasol gyda'r ardaloedd hyn, yn ogystal â chyfyngiadau tebyg ar adeiladu. Ni ddylai'r ffaith eu bod mewn

> etholaethau seneddol eraill fod yn faen tramgwydd gan eu bod o'r farn bod 'gwleidyddiaeth yn ddigon hyblyg i gynorthwyo anghenion preswylwyr yn hytrach na glynu at ffin wleidyddol fympwyol'.

Fe ysgrifennodd **Cyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod** i ddatgan eu bod yn teimlo'n gryf yn erbyn y cynnig i newid ffin Cyngor Tref Saundersfoot. Mae'r cyngor o'r farn bod y 'newidiadau mor sylweddol fel y byddent yn peryglu bodolaeth' eu cymuned.

Fodd bynnag, nid ydynt yn gwrthwynebu newid ac fe awgrymon nhw y byddai rhai rhannau o'r newid arfaethedig yn dderbyniol. Roeddynt yn derbyn y gallai Swallow Tree, Nyth Gwennol a Chwm Gwennol elwa ar fod yn rhan o Saundersfoot. Maent o'r farn y dylai'r ardal o Rushy Lake, Broadfield Hill a Broadfield aros yn Llanfair Dinbych-y-pysgod gan fod y bobl sydd yno eisiau aros a defnyddio'r cyfleusterau lleol, gan gynnwys y Swyddfa Bost, y siop leol, y tafarndai, y garej a neuadd y pentref.

Maent yn credu y byddai'r newid yn cael effaith drychinebus ar y gymuned ac yn peri iddi roi'r gorau i fod yn 'gymuned fywiog' i'r etholaeth. Maent yn nodi bod 'mwyafrif llethol' y bobl sy'n byw yn yr ardal yn fodlon ar y sefyllfa bresennol.

Fe gyflwynon nhw dystiolaeth atodol ar ffurf:

i. Eu cyflwyniad i'r cyngor sir;
ii. Llythyrau oddi wrth Mr a Mrs Williams, Joan Ayling (gweler isod) a'r Cyng. Carol Cavil (gweler isod) i'r cyngor sir;
iii. Deiseb yn gwrthwynebu'r newidiadau gan 154 o breswylwyr Llanfair Dinbych-y-pysgod;
iv. Arolwg o breswylwyr gyda 48 o ymatebwyr yn dymuno aros yn Llanfair Dinbych-y-pysgod.

Roedd **Cyngor Cymuned Uzmaston a Boulston** yn teimlo'n gryf yn erbyn trosglwyddo Uzmaston Road i Gyngor Tref Hwlffordd. Maent yn honni bod eu preswylwyr craidd yn cael eu symud a'u bod yn dymuno aros lle y maent. Maent ar hyn o bryd yn cynnal prosiect adfywio a fyddai'n dod â'r gymuned hyd yn oed yn agosach at ei gilydd ac mae'r newid arfaethedig yn rhoi hynny yn y fantol. Amgaewyd llythyrau gan sawl preswylydd o Uzmaston a Boulston yn ogystal â deiseb gyda llofnod 210 o bobl yn gwrthwynebu'r newid yn gryf.

Fe ysgrifennodd **Stephen Crabb AS** i fynegi ei bryder ynghylch y cynnig i gyfuno Treamlod a Spittal. Roedd clercod y ddau gyngor cymuned wedi cyflwyno eu dadleuon iddo ynghylch pam y dylai'r cynghorau cymuned barhau fel ag y maent ac roedd yn cytuno â nhw a'r pryderon a godwyd. Mae Mr Crabb yn ymwybodol bod y ddwy gymuned yn 'amrywiol iawn' a bod eu 'gofynion, eu hanghenion a'u diwylliannau' yn wahanol ac mai'r rhai sydd wedi'u hethol i wasanaethu'r cymunedau hyn sydd yn y sefyllfa orau i'w cynrychioli. Mae hefyd yn bryderus am y ffaith bod cymuned Spittal yn tyfu a bydd y galw am weithgarwch y cynghorau cymuned yn cynyddu i gynrychioli pryderon y gymuned honno.

Fe ysgrifennodd hefyd i fynegi ei bryder ynghylch cyfuno Dale a Marloes a Sain Ffraid. Roedd sawl un o'i etholwyr wedi cyflwyno eu dadleuon wrtho am pam y dylai'r cynghorau cymuned aros yr un fath ac mae'n cytuno gyda'u barn a'r pryderon a godwyd. Mae Mr Crabb yn ymwybodol bod y ddwy gymuned yn 'amrywiol iawn' a bod eu 'gofynion, eu

hanghenion a'u diwylliannau' yn wahanol ac mai'r rhai sydd wedi'u hethol i wasanaethu'r cymunedau hyn sydd yn y sefyllfa orau i'w cynrychioli.

Mewn cynrychiolaeth bellach, mynegodd Mr Crabb ei bryder am y cynnig o gyfuno cymunedau sydd â gwahanol ofynion, anghenion a diwylliannau ac mai'r rhai sydd wedi'u hethol i wasanaethu'r cymunedau hyn sydd yn y sefyllfa orau i'w cynrychioli.

Fe ysgrifennodd **Paul Davies AM** i wrthwynebu'r cynnig i gyfuno Treamlod a Spittal. Roedd y ddau gyngor cymuned wedi cysylltu â Mr Davies i ddatgan eu bod yn teimlo'n gryf yn erbyn y bwriad i gyfuno. Ym marn Mr Davies, ni fydd y bwriad i ostwng nifer y cynghorwyr cymuned yn ogystal â'r cynnig amhoblogaidd o gymorth o ran darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus; mae o'r farn y byddai'r gwasanaeth yn gwaethygu. Mae'n teimlo y bydd y cynnig yn pellhau'r cymunedau oddi wrth ei gilydd ac mae'n ein hannog i gadw'r ddau gyngor cymuned ar wahân.

Fe ysgrifennodd hefyd i wrthwynebu'r cynnig i gyfuno Herbrandston a Llanisan yn Rhos. Fe nododd fod y cyngor sir wedi gofyn i'r comisiwn 'ystyried yn briodol ac yn ofalus y materion cydnabyddedig o ran dod â'r cymunedau perthnasol ynghyd' ac mae'n cymeradwyo'r sylw.

Mae Mr Davies yn teimlo mai ychydig iawn sy'n gyffredin rhwng y cymunedau a'u bod yn ardaloedd cwbl ar wahân. Mae o'r farn bod gan Herbrandston gysylltiad agos iawn ag Aberdaugleddau oherwydd y pellter bychan rhyngddynt, tra bod Llanisan yn Rhos yn ardal llawer mwy gwledig ac yn wahanol iawn. Mae hefyd yn bryderus am sut bydd y cynnig i leihau nifer y cynghorwyr cymuned yn effeithio ar ddemocratiaeth leol.

Ac yntau'n gynghorydd sir ar gyfer yr adran etholiadol sy'n cynnwys Treamlod a Spittal, dywedodd y **Cyng. David Howlett** ei fod mewn sefyllfa ddelfrydol i roi ei farn am y cynnig i gyfuno ac roedd yn teimlo'n gryf yn ei erbyn. Roedd y trefniadau cyfredol yn gweithio'n dda gan fod cynghorwyr y ddwy gymuned yn adnabyddus i'r preswylwyr ac mae ganddynt lawer iawn o wybodaeth am eu hardaloedd perthnasol. Pe byddai'r cymunedau'n dod ynghyd, hwyrach y byddai'n rhaid i gynghorwyr wneud penderfyniadau ar gyfer ardaloedd sy'n ddieithr iddynt. Nid oedd preswylwyr Treamlod a Spittal yn teithio drwy gymunedau ei gilydd ac felly prin iawn oedd y cysylltiad rhyngddynt. Fe bwysleisiodd nad oedd unrhyw un o blaid y cynnig i gyfuno. Fe amgaeodd gopïau o sawl llythyr gan breswylwyr Treamlod a Spittal i Gyngor Sir Penfro yn gwrthwynebu'r cynnig i gyfuno.

Fe ysgrifennodd y **Cynghorydd David Bryan** i wrthwynebu'r cynnig i drosglwyddo rhan o gymuned Uzmaston a Boulston i Hwlffordd gan ei fod yn gynghorydd mewn ward cyfagos ac yn breswylydd a fyddai'n cael ei effeithio gan y newid. Nid yw Mr Bryan o'r farn y byddai unrhyw arian yn cael ei arbed ac mae'n bryderus y galli'r archebiant 'godi yn sylweddol' heb gynnig unrhyw wasanaethau ychwanegol. Roedd hefyd yn amheus ynghylch y cynnig i gyfuno gyda chymuned Rudbaxton gan nad oes cysylltiad amlwg rhwng y ddwy gymuned ac mai rôl eithaf di-nod fyddai gan gynghorwyr Uzmaston yn y cyngor cymuned newydd a gynigir.

Fe ysgrifennodd y **Cynghorydd Carol Cavill** i fynegi ei phryderon am y newidiadau arfaethedig i'r ffin rhwng Llanfair Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Roedd y Cyng. Cavill yn cydnabod bod gan Gwm Gwennol, Nyth Gwennol a Swallowtree gysylltiad eithaf agos â Saundersfoot yn ôl pob golwg, ond roedd o'r farn y dylai Broadfield Hill a Rushy Lake barhau yn Llanfair Dinbych-y-pysgod gan fod y preswylwyr yn defnyddio'r Swyddfa Bost,

siop y garej, y peiriant twll yn y wal, y siop bapurau newydd ac yn mynd i ddigwyddiadau yn neuadd y pentref. Roedd y preswylwyr yn bryderus na fyddent yn gallu cymryd rhan yn y digwyddiadau y maent yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd.

Mae hi hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod Cyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod, ar y cyd â'r cyngor sir, wedi creu llwybr i'r ardal hon na fyddai wedi cael yr un gefnogaeth o bosibl pe byddai'r ardal yn rhan o Saundersfoot. Mae hi hefyd yn nodi bod cyfleusterau cymunedol yn cael eu defnyddio'n amlach yn ystod tymor y gwyliau gan fod mwy o ymwelwyr a hwyrach nad oes gan gymuned fach yr adnoddau i ymdopi â'u hanghenion.

Fe ysgrifennodd y **Cynghorydd Ian Gollop** i wrthwynebu'r cynnig i newid rhan o Nanhyfer i Gyngor Cymuned Eglwyswrw. Roedd yn bryderus am y diffyg ymgynghori a fu gyda'r preswylwyr ar y mater hwn.

Fe ysgrifennodd y **Cynghorydd Richard Hancock** i wrthwynebu'r cynnig i gyfuno Cyngor Cymuned Rudbaxton gyda Chyngor Cymuned Uzmaston a Boulston. Roedd o'r farn nad oedd yn bosibl i'r broses lwyddo ac na fu digon o ymgynghori am y cynigion. Mae'n dadlau bod preswylwyr Uzmaston a Boulston yn ystyried eu hunain yn gymuned wledig ac nid ydynt yn derbyn gwasanaethau mewn ardal drefol nac yn disgwyl gwneud hynny. Fe nododd fod yr archebiant ar gyfer Cyngor Cymuned Uzmaston a Boulston yn un o'r rhai isaf yn y sir. Felly, go brin y bo modd cyfiawnhau'r newidiadau ar sail y gost.

Fe amgaeodd 9 darn o ohebiaeth yr oedd wedi'u derbyn ynghylch y newid a gynigiwyd.

Fe ysgrifennodd **Jordanston Community Association** i wrthwynebu'n gryf y cynnig i drosglwyddo Jordanston (yn Llanstadwell) i Rosemarket. Amgaewyd 58 o ffurflenni a ddychwelwyd gan breswylwyr. Dyma oedd eu rhesymau dros aros yng Nghyngor Cymuned Llanstadwell:

- Nid yw mwyafrif y preswylwyr yn Jordanston yn dymuno cael eu trosglwyddo i Rosemarket;
- Mae Jordanston yn cynnwys aneddiadau gwledig ac yn hollol wahanol i gytref drefol fechan Rosemarket;
- Mae Jordanston yn rhan hanesyddol o gymuned wledig a hirsefydledig Llanstadwell ac mae cysylltiadau cryf wedi'u meithrin yn sgil hynny;
- Mae cyfran yr etholwyr a gaiff ei drosglwyddo yn cynrychioli 10% o gymuned Llanstadwell;
- Mae nodweddion daearyddol cenedlaethol yn bodoli eisoes fel ffin cymuned Llanstadwell;
- Mae'r ffin arfaethedig yn rhannu fferm rhwng dwy gymuned – Fferm Norton (ar ochr de-ddwyreiniol y ffin). Mae'r perchennog Richard Hayman yn honni byddai'r ffin yn mynd drwy ganol ei fferm.
- Dim ond dwy ffordd sy'n mynd i Rosemarket, ac mae'r ddwy ohonynt yn gul ac yn beryglus. Nid yw cerddwyr yn eu defnyddio ac nid yw cerbydau yn teithio arnynt oni bai bod rhaid;
- Nid oes lleoliadau masnachol cyffredinol yn Rosemarket i ddenu preswylwyr;
- Nid yw plant yn mynychu'r ysgol yn Rosemarket
- Nid yw preswylwyr yn treulio eu hamser hamdden yn Rosemarket yn rheolaidd;
- Nid oes gweithgareddau addoli yn cael eu cynnal yn Rosemarket yn bennaf.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Marloes** i wrthwynebu'r cynnig i aildrefnu cymuned Dale. Fe nododd fod y tair cymuned yn dra gwahanol i'w gilydd o ran daearyddiaeth,

rhagfeddiant a disgwyliadau, a'u bod yn 'haeddu'r gynrychiolaeth effeithiol y maent wedi'u derbyn hyd yn hyn'. Roedd o'r farn y byddai'r newid yn gam i'r cyfeiriad anghywir ac fe fynegodd bryder ynghylch lleihau nifer y cynghorwyr. Mae hefyd yn bryderus na chyflwynwyd unrhyw resymau dros y cynnig.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Herbrandston** i wrthwynebu'n gryf y cynnig i gyfuno gyda Llanisan yn Rhos. Mae aber llanw yn gwahanu'r ddwy gymuned ac maent wedi bod yn elynion pennaf ar y meysydd chwarae ers deugain mlynedd. Fe nododd nad oes gan bobl Herbrandston unrhyw ddiddordeb ym materion Llanisan yn Rhos. Byddai cynnal unrhyw gyfarfod cyngor yn trafod y materion hyn yn wastraff amser i gynghorwyr Herbrandston, ac i'r gwrthwyneb. I ddweud y gwir, byddai unrhyw ymgais gan un ochr i ddangos diddordeb ym musnes yr ochr arall yn cael ei ystyried yn ymyrraeth gwbl ddiangen.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Lanfair Dinbych-y-pysgod** i wrthwynebu'r cynnig i newid ffin Saundersfoot am resymau hanesyddol yn ogystal ag oherwydd colli'r archebiant a'i effaith niweidiol ar y gymuned. Mae o'r farn bod y gymuned yn 'gwbl fodlon' ar ei 'chyfleusterau arbennig' a gynigir ar hyn o bryd i breswylwyr ac ymwelwyr.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Swallow Tree** i wrthwynebu'r cynnig i newid Llanfair Dinbych-y-pysgod i Saundersfoot oherwydd ei fod yn credu y byddai'n achosi i dreth y cyngor godi a hynny er ddim lles i breswylwyr [Saundersfoot].

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Lanfair Dinbych-y-pysgod** i wrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Saundersfoot. Fe nododd fod Cyngor Cymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod yn 'gorff o bobl eithriadol o egnïol'. Fe nododd fod arolwg wedi'i gynnal oedd yn holi pawb oedd yn byw yn yr ardal i'w throsglwyddo, ac ar wahân i breswylwyr Stryd y Wennol, ac roedd y mwyafrif llethol o blaid aros yn Llanfair Dinbych-y-pysgod. Fe ddywedodd hefyd y byddai'r bobl sy'n byw yn yr ardal dan sylw yn cael eu gwthio o'r neilltu a thynnodd sylw at sut roedd y cyngor cymuned wedi llwyddo i wella diogelwch y ffyrdd a darparu llwybr yn yr ardal. Roedd o'r farn nad oes sicrwydd y byddai hyn wedi cael ei wneud pe byddai'r ardal yn rhan ffiniol o gyngor arall. Fe nododd hefyd mai twristiaeth a hamdden yw blaenoriaethau Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot ac mai'r ardal breswyl ac amaethyddiaeth sydd bwysicaf i Lanfair Dinbych-y-pysgod. Mae o'r farn y byddai trosglwyddo Devonshire Drive i Lanfair Dinbych-y-pysgod yn 'effeithio ar hanfod a brwdfrydedd' yr ardal gyfredol. Mae'n bryderus am y ffaith nad oes unrhyw reswm wedi'i gyflwyno dros y newid gan fod y sefyllfa bresennol 'yn gytbwys ac, yn bwysicaf oll, yn gweithio'n dda'.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Lanfair Dinbych-y-pysgod** i wrthwynebu unrhyw newidiadau i Lanfair Dinbych-y-pysgod. Roedd o'r farn bod y mater wedi'i ddatrys tair blynedd yn ôl ac roedd yn gwrthwynebu unrhyw beth a fyddai'n amharu ar heddwch y preswylwyr o fewn ffin Llanfair Dinbych-y-pysgod.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o New Hedges** i wrthwynebu'r newidiadau i Lanfair Dinbych-y-pysgod. Roeddent yn ystyried eu hunain yn rhan o gymuned glos ac nid oeddent eisiau cael eu hychwanegu at ymylon dwy gymuned fwy. Roedd o'r farn y dylen nhw barhau'n annibynnol oherwydd bod gan eu hardal breswyl wledig anghenion gwahanol i DDinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Roedd hi hefyd yn bryderus y ceir gwared ar y gymuned newydd lai yn gyfan gwbl mewn arolwg yn y dyfodol pe byddai'r newidiadau'n cael eu derbyn. Fe amgaeodd ddeiseb yn erbyn y newid gyda llofnod 150 o breswylwyr.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Lanfair Dinbych-y-pysgod** i wrthwynebu'r cynnig i newid y ffin am resymau hanesyddol yn ogystal â cholli'r archebiant a'i effaith niweidiol ar y gymuned. Roedd hi'n credu bod y gymuned yn 'fodlon iawn ei byd' yn ei ffurf bresennol.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o New Hedges** i wrthwynebu'r cynnig i newid y ffin am resymau hanesyddol. Roedd hi'n credu bod y gymuned yn 'gwbl fodlon' ar ei 'chyfleusterau arbennig' a gynigir ar hyn o bryd i breswylwyr ac ymwelwyr.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Broadfield** i wrthwynebu'r newid. Maent wedi cael eu plesio'n fawr gan 'ymroddiad brwdfrydig y cynghorwyr sy'n gweithio'n galed ar bob mater cymunedol'. Maent wedi'u hargyhoeddi pe byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn y 'byddai pob elfen o fywyd y pentref yn dirywio'n aruthrol' ac y byddai treth y cyngor yn codi hefyd.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Hwlffordd** i godi eu pryderon am y cynnig i symud ardal yn Rudbaxton (Ffordd Aberteifi) i Gyngor Tref Hwlffordd. Maent yn cwyno am y diffyg ymgynghori a fu ar y mater a phryderu am gynnydd yn nhreth y cyngor.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Dunsany Park** i wrthwynebu'r cynnig i symud ei chymuned i Gyngor Tref Hwlffordd. Mae Angela yn ystyried ei hun yn rhan o gymuned wledig o amgylch eglwys Uzmaston. Mae hi'n cynorthwyo ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac maent yn 'codi arian i wneud neuadd yr eglwys yn fwy chyfleus er mwyn sicrhau ei bod yn rhan ganolog o'r gymuned'. Mae hi'n teimlo bod gwir deimlad o agosatrwydd yn yr ardal ac y byddai newid y ffin 'yn peri i'r gymuned golli ei henaid'. Mae hi hefyd yn codi pryderon am y ffaith bod llawer o breswylwyr yr ardal ar incwm isel ac y byddai cael archebiant bedair neu bum gwaith yn uwch yn peri anawsterau. Nid oedd Angela yn deall ychwaith y rhesymeg y tu ôl i gyfuno gyda Rudbaxton gan mai ffordd drwy Hwlffordd yw'r unig gysylltiad rhwng y ddwy gymuned.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Uzmaston Road** i wrthwynebu'n gryf y cynnig i symud ei ffordd i Gyngor Tref Hwlffordd. Roedd o'r farn bod y 'cyngor cymuned effeithlon, bychan, gweithgar a di-lol' yn gofalu am yr ardal yn dda ac awgrymodd fod y cyngor tref yn 'aneffeithiol ar y cyfan' ac y byddai'n costio mwy heb roi unrhyw fanteision.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Cartlett** i wrthwynebu'r newid a gynigiwyd i Gyngor Tref Hwlffordd. Mae Helen yn teimlo'n rhan o gefn gwlad yn hytrach na thref. Mae hi hefyd yn cwyno am y diffyg ymgynghori a fu ar y mater.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Uzmaston Road** i wrthwynebu'r newid yn 'chwyrn' oherwydd cysylltiad hanesyddol rhwng Stad Dunsany ac Uzmaston. Mae hefyd yn cwyno am y diffyg ymgynghori a fu ar y mater a'r cynnydd mewn cyfraddau a threthi.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Uzmaston Road** ar ffurf llythyr ac e-bost i wrthwynebu'r newid a gynigiwyd. Fe gwynodd am y diffyg ymgynghori a fu gyda'r cyngor cymuned ac yn bersonol gyda'r cynghorydd lleol (pan gyflwynwyd y cynnig cychwynnol). Roeddent o'r farn bod yr eiddo yn wledig oherwydd: bod caeau yn amgylchynu'r annedd yn llwyr; mae'r cymydog agosaf yn byw 100m i ffwrdd; mae'r eiddo y tu allan i barth 30mya; nid oes goleuadau stryd na phalmentydd; mae ar lwybr gwledig y swyddfa bost a'r gwasanaeth casglu sbwriel; mae'n gysylltiedig â llinellau trydan uwchben ac mae'n gallu colli cysylltiad am gyfnodau byr; nid oes halen yn cael ei roi ar y ffyrdd pan fo'r tywydd yn wael; mae anifeiliaid fferm yn cael eu symud ar hyd y ffordd ac mae'r ffordd yn brysur pan mae'r ffermwr yn symud silwair neu'n cynaeafu.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Uzmaston Road** i wrthwynebu'r cynigion. Fe gwynodd am y diffyg ymgynghori ar y broses a gofynnodd am y rhesymau dros y penderfyniad. Roedd hi hefyd yn bryderus am yr effaith ar dwristiaeth pe byddai 'tref marchnad wledig' Hwlffordd yn datblygu 'ardal drefol fawr'. Roedd ganddi bryderon hefyd am y cynnydd posibl yn nhreth y cyngor ac roedd yn cwestiynu pa wasanaethau ychwanegol y byddai hi'n eu derbyn.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Dunsany Park** i wrthwynebu'r cynigion. Maent yn teimlo'n rhan o gymuned fach, ofalgar sydd ag ysbryd cymunedol cryf. Nid ydynt yn gallu cofio unrhyw ddigwyddiadau cymunedol yn Hwlffordd a hoffen nhw barhau'n rhan o gymuned fach yn hytrach na rhan o dref lle mae pobl yn cadw ar wahân i bawb arall.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Boulston** i wrthwynebu'r cynnig i newid y ffiniau oherwydd bod ganddynt gymuned gref a chyfeillgar sy'n gysylltiedig â'r eglwys.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Uzmaston Road** i ddatgan ei fod yn teimlo'n gryf yn erbyn y newidiadau arfaethedig. Fe nododd fod ychwanegu'r tair stad parc i gymuned Uzmaston a Boulston wedi rhoi bywyd newydd i'r gymuned; byddai symud y rhain yn amddifadu Uzmaston o'i chalon a'i chefnogaeth. Hefyd, byddai cysylltu Uzmaston gyda Crundale (Rudbaxton) yn 'mynd yn groes i ddyheadau'r bobl' ac mae'n nodi y byddai'n rhaid gyrru trwy Hwlffordd er mwyn cyrraedd Crundale. Nid yw'n credu bod gan Crundale 'fan canolog' a byddai cyfuno Uzmaston gyda nhw yn cynyddu'r tensiwn cyfredol sydd yno. Mae'n awgrymu y dylid cyfuno Uzmaston gyda Slebech oherwydd byddai hynny'n atgyfnerthu'r gymuned.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Clover Park** i ddatgan ei fod yn teimlo'n gryf yn erbyn y newid arfaethedig. Maent yn codi pryderon ynghylch y cynnydd yn yr archebiant a'r hyn y mae'n ei gyfrannu at Hwlffordd.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Uzmaston Road** i fynegi ei bryder ynghylch y newidiadau arfaethedig. Maent yn aelodau blaenllaw o eglwys y plwyf ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned. Fel cymuned, maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithio'n galed i wella neuadd yr eglwys er mwyn cynyddu nifer y digwyddiadau cymunedol lleol. Maent o'r farn y byddai symud yr ardaloedd dan sylw i Hwlffordd yn 'niweidio'r ethos cymunedol yn aruthrol'. Maent hefyd yn bryderus am golli cynrychiolaeth ar y cyngor sir oherwydd byddai'r newidiadau yn 'cael gwared ar annibyniaeth y gymuned ac yn gwanhau llais ein cymuned'.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Cartlett** i ddatgan ei fod yn teimlo'n gryf yn erbyn y newid. Maent yn credu eu bod yn rhan o gymuned ag ysbryd cryf ac maent yn bryderus na fyddai eu hanghenion yn cael eu cynrychioli cystal mewn cymuned fwy. Maent yn nodi eu bod y tu hwnt i 'ffiniau tref'. Maent yn derbyn gwasanaethau ar gyfer ardaloedd gwledig a byddai newid i fod yn rhan o dref yn golygu trethi uwch. Maent hefyd yn cwyno am y diffyg ymgynghori ar y mater. Mewn gohebiaeth bellach, maent yn nodi na fyddai cyfuno Rudbaxton gydag Uzmaston a Boulston yn gwneud synnwyr gan ei bod yn gymuned fawr y pen arall i Hwlffordd ac ar ochr arall y dyffryn.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Uzmaston Road** i fynegi ei phryderon am y cynigion. Fe gwynodd nad ymgynghorwyd â phreswylwyr lleol. Mae hi'n teimlo bod 'cymuned leol ymdrechgar yn seiliedig o amgylch Uzmaston' ac yn rhoi enghraifft o'r adeg pan ddaeth y gymuned ynghyd i wrthwynebu mast Tetra heb unrhyw gefnogaeth o gwbl gan breswylwyr Hwlffordd. Roedd hi hefyd yn holi pam nad oes gwasanaeth bws rhwng y

gymuned â'r dref os yw'n rhan o Hwlffordd. Yn ei gohebiaeth â'r cynghorydd cymuned, mae hi hefyd yn codi pryderon ynghylch cynnydd mewn costau cymunedol ac yn codi cwestiynau ynghylch y berthynas rhwng Boulston a Crundale.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Creamston Road**, sy'n byw yng nghymuned Uzmaston a Boulston, i roi ei sylwadau am y gwasanaethau 'gwledig' y mae hi'n eu derbyn ar hyn o bryd ac fe holodd a fyddai'r gwasanaethau yn gwella pe byddai treth y cyngor yn codi.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Style Park** i ddatgan ei fod yn teimlo'n gryf yn erbyn y newid arfaethedig. Mae ganddynt gysylltiadau â'r eglwys yn Uzmaston ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Maent hefyd yn codi pryderon am y diffyg ymgynghori ac yn honni na fyddent yn cymryd rhan mewn unrhyw etholiadau lleol yn y dyfodol os ydynt yn cael eu trosglwyddo i Hwlffordd.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Felindre Farchog** i wrthwynebu'r cynnig i newid ardal o Nanhyfer i Gyngor Cymuned Eglwyswrw. Roedd hefyd yn bryderus am y diffyg ymgynghori ar y mater hwn. Fe dderbynion ni 41 o ymatebion eraill oedd union yr un fath.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Frynberian** i wrthwynebu'r cynnig i newid ardal o Nanhyfer i Gyngor Cymuned Eglwyswrw. Roedd hefyd yn bryderus am y diffyg ymgynghori ar y mater hwn. Fe dderbynion ni 15 o ymatebion eraill oedd union yr un fath.

Fe ysgrifennodd **preswylydd o Moylegrove** i ddatgan ei fod yn teimlo'n gryf yn erbyn y cynnig i newid ardal o Nanhyfer i Gyngor Cymuned Eglwyswrw. Roeddynt hefyd yn bryderus am y diffyg ymgynghori.